




Diogelu Plant mewn Addysg

Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002



Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 005/2008

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2008

Yn disodli Cylchlythyr Rhif: 52/1995

Diogelu Plant mewn Addysg

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol, prifathrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, prifathrawon a chyrff llywodraethu ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig, awdurdodau esgobaethol eglwysig, perchnogion ysgolion annibynnol, penaethiaid sefydliadau addysg uwch, undebau staff ysgolion, Llywodraethwyr Cymru, Gyrfa Cymru, Awdurdodau Addysg Uwch a Chadeiryddion Byrddau Lleol Diogelu Plant. Dylai staff yn y sefydliadau hyn sy'n bennaf gyfrifol am ddiogelu plant hefyd ei ddarllen.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ar y trefniadau ar gyfer diogelu plant o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r canllawiau'n disodli cylchlythyr canllawiau cyfredol 52/1995 <i>"Protecting Children from Abuse: the Role of the Education Service"</i> .
Camau i'w cymryd	Dylai cyflogwyr nodi'r wybodaeth sydd yn y canllawiau hyn.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Nicky Mills Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 3677 Ffacs: 029 2080 1044 E-bost: safeguarding.children@wales.gsi.gov.uk
Copiau ychwanegol	Ar gael drwy gysylltu â'r cyfeiriad uchod neu drwy fynd i wefan y Llywodraeth www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Dogfennau cysylltiedig	Ceir rhestr lawn yn Atodiad G ar ddiwedd y ddogfen hon ond dyma'r prif ddogfennau: Cylchlythyr Rhif 34/02: Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg. Cylchlythyr Rhif 39/06: Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ynglŷn â Gweithdrefnau Cwyno yn ymwneud â Disgyblion. Cylchlythyr Rhif 12/07: Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

Cynnwys

Crynodeb	4
Adran 1: Rhagarweiniad a Fframwaith Deddfwriaethol	6
Cysyniadau a Diffiniadau Allweddol	9
Adran 2: Amcan Cyffredin	12
Diogelu a Hybu Lles	13
Creu Amgylchedd Dysgu Diogel	16
Nodi ac Ymateb i Bryderon	16
Rhan Rhiant neu Ofalwr	19
Adran 3: Y Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Plant rhag Esgeulustod a chael eu Cam-drin	21
Rôl yr Awdurdod Lleol	21
• Cyfrifoldebau Strategol	23
• Cyfrifoldebau Cefnogi	24
• Cyfrifoldebau Gweithredol	25
Rôl Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir	26
Rôl Cyrff Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach	29
Rôl Prifathrawon a Phenaethiaid	31
Rôl Perchnogion Ysgolion Annibynnol	31
Ysgolion Preswyl	33
Ysgolion Bro, Gweithgareddau Cyn ac Ar Ôl Ysgol a Dysgu y tu Allan i Orlau	34
Hyfforddiant Amddiffyn Plant/Hyfforddiant Rhyngasiantaethol	34
Cyngor ychwanegol ar ddiogelu	36

Adran 4: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant 38

Penodi staff 38

Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Athrawon a Staff nad ydynt yn Addysgu mewn Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru 39

Cyflwyno Adroddiadau ar Achosion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Rôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) 40

Rhannu Gwybodaeth 41

Atodiadau

Atodiad A: 42
Meysydd Cyfrifoldeb Eang ar gyfer Swyddogion Dynodedig
Amddiffyn Plant Arweiniol mewn Awdurdodau Lleol

Atodiad B: 45
Meysydd Cyfrifoldeb Eang ar gyfer
Uwch Berson Dynodedig Amddiffyn Plant

Atodiad C: 47
Nodiadau Enghreifftiol:
NE 1: Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer Ysgolion
NE 2: Nodyn Enghreifftiol ar gyfer Staff
NE 3: Nodyn Enghreifftiol ar gyfer Rhieni/Gofalwyr
NE 4: Nodyn Enghreifftiol ar gyfer Disgyblion

Atodiad D: 59
Diogelu Plant - Mwy o Gyngor a Chanllawiau
Camddefnyddio Ymddiriedaeth
Cysylltiad Corfforol gyda Disgyblion/Ffrwyno
Addysgu Plant am Faterion fel rhan o Addysg Bersonol
a Chymdeithasol (ABCh)
Plant sy'n Diflannu o Fyd Addysg
Gwrando ar Blant
Cyfrinachedd
Egwyddorion sy'n ategu gwaith i ddiogelu
a hybu lles plant
Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol

Atodiad E:	71
Siartiau Llif	
Siart Llif 1 - Cyfeirio	
Siart Llif 2 - Beth sy'n digwydd ar ôl Asesiad Cychwynnol	
Siart Llif 3 - Camau Brys i Ddiogelu Plant	
Siart Llif 4 - Beth sy'n digwydd ar ôl trafod y Strategaeth	
Siart Llif 5 - Beth sy'n digwydd ar ôl y Gynhadledd Amddiffyn Plant, gan gynnwys y Broses Adolygu?	
Atodiad F:	76
Rhannu Gwybodaeth	
Atodiad G:	95
Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol	

Crynodeb

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol Cymru, cyrff llywodraethu pob ysgol, (mae'r cyfeiriadau a wneir at ysgolion drwy'r ddogfen gyfan hefyd yn berthnasol i unedau cyfeirio disgyblion), sefydliadau Addysg Bellach (sefydliadau AB) a pherchnogion ysgolion annibynnol i gael trefniadau ar waith i ymarfer eu swyddogaethau o ran diogelu a hybu lles plant a phobl ifanc. Mae'n delio â phob plentyn a pherson ifanc hyd at 18 oed, ond er mwyn hwyluso'r drafftio, cyfeirir at "blant" yn hytrach na "phlant a phobl ifanc". Mae'n **disodli'r** arweiniad cyfredol am drefniadau amddiffyn plant yn y gwasanaeth addysg a gynhwysir yng Nghylchlythyr y Swyddfa Gymreig 52/95: *"Amddiffyn Plant rhag cael eu Cam-drin: Rôl y Gwasanaeth Addysg"*.

Cyhoeddir yr arweiniad hwn gan Weinidogion Cymru wrth iddynt ymarfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ac a roddir yn awr i Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen hon:-

- yn rhoi arweiniad am effaith y ddyletswydd i fod â threfniadau ar waith ar gyfer diogelu a hybu lles plant a gyflwynwyd gan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ac a ddaeth i rym yng Nghymru ar 1 Medi 2006;
- yn pennu rheolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, perchnogion ysgolion annibynnol, prifathrawon, a staff â chyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant, ar gyfer trefnu bod pobl yn y gwasanaeth addysg yn cael eu galluogi i chwarae eu rhan lawn yn diogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; ac
- yn ategu'r arweiniad yn *"Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o Dan Ddeddf Plant 2004"* (*Diogelu Plant*), a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2007, drwy nodi'r seilwaith a'r trefniadau y mae angen iddynt fod ar waith i sicrhau bod gan bobl yn y gwasanaeth addysg y sgiliau, y modd a'r hyfforddiant angenrheidiol i sicrhau bod plant wedi eu hamddiffyn rhag niwed.

Nid yw'n rhagnodi gweithdrefnau manwl, ei nod yn hytrach yw nodi'r canlyniadau y mae angen i sefydliadau eu sicrhau fel bod staff yn cyflawni'r amcan o gadw plant yn ddiogel rhag niwed, a'r hyn y mae angen ei wneud neu ei roi ar waith i gyflawni hyn.

Mae'r Atodiadau i'r canllawiau yn cynnwys gwybodaeth am faterion sy'n berthnasol i amddiffyn plant, ac yn cysylltu â chyngor a chanllawiau pellach a mwy manwl ar y materion hynny.

Mae unrhyw gyfeiriad yn y canllawiau hyn at blentyn, plant, neu blant a phobl ifanc, yn gyfeiriadau at bobl o dan ddeunaw oed.

Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol mewn amgylchiadau lle mae honiad amddiffyn plant wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff a bod camau disgyblu staff i'w cymryd. Rhaid i'r gweithdrefnau i'w dilyn yn yr achosion hynny fod wedi eu nodi yng ngweithdrefnau disgyblu'r corff llywodraethu, a ddylai, wedyn ystyried y canllawiau yng nghylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 45/2004 *"Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion"*.

Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys gofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd sydd am gael ei gyflwyno dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006. Cyhoeddir canllawiau ar gyfer y cynllun yn y man.

Adran 1: Rhagarweiniad a Fframwaith Deddfwriaethol

1.1 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru ac mae wedi mabwysiadu Saith Nod Craidd y bydd yn anelu atynt er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc ym mhob man:

- yn cael dechrau da mewn bywyd;
- yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu cam-drin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio;
- yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; ac
- yn osgol cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

1.2 Dan Adran 25 o Ddeddf Plant 2004 rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod, holl bartneriaid perthnasol yr awdurdod ac unrhyw gorff neu bobl eraill sy'n briodol ym marn yr awdurdod, er mwyn gwella lles plant a phobl ifanc perthnasol ymhob ardal awdurdod lleol. Mae'n galluogi partneriaid penodedig i gyfuno cyllidebau ac adnoddau eraill i gefnogi'r trefniadau hyn. Yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau*, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2006, nodir dyletswyddau awdurdodau lleol i ddangos arweiniad wrth hybu gweithio mewn partneriaeth er mwyn sefydlu gwasanaethau integredig effeithiol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.

1.3 Dan *Reoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007*, rhaid i bob awdurdod, ar ôl ymgynghori â phartneriaid, gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc, a fydd yn nodi sut y byddant yn gwella lles plant a phobl ifanc.

1.4 Bwriedir i'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc fod yn gynllun strategol 3 blynedd, a fydd yn cynnig gweledigaeth strategol,

nodi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt i gyfeirio gwaith pob partner, pennu targedau y cytunir arnynt ar y cyd a rhoi sylfaen ar gyfer cyd-gomisiynu gwasanaethau. Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc fydd y datganiad diffiniol o fwriad a blaenoriaethau cynllunio strategol ar gyfer pob gwasanaeth i blant a phobl ifanc yn yr ardal. Yn hyn o beth, bydd yn gweithredu fel y pwynt cyfeirio ar gyfer pob cynllun arall.

1.5 Daeth *Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007* i rym ar 1 Medi 2007 a chyhoeddwyd y canllawiau cynllunio *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau* ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yr un pryd. Rhaid mabwysiadu'r cynlluniau cyntaf, ar gyfer y cyfnod 2008-11, erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008. Mae paragraff 1.25 o *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau* yn nodi'r berthynas rhwng y Byrddau Lleol Diogelu Plant a'r Cynllun. Mae'r Byrddau Lleol Diogelu Plant yn ymgynghorai statudol o'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc leol.

1.6 Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon yn rhan o fframwaith ehangach Llywodraeth y Cynulliad i ddiogelu a hybu lles plant. Mae "*Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth 2007 yn nodi'r system gyffredinol ar gyfer diogelu plant a swyddogaethau'r gwahanol asiantaethau. Mae'r "*Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd*" yn cynnig fframwaith i asesu plant a theuluoedd o dan Ddeddf Plant 1989. Mae hyn yn cynnwys asesiadau lle mae pryderon y gallai plentyn fod yn dioddef, neu lle mae plentyn yn dioddef, o niwed.

1.7 Dylid darllen y canllawiau hyn law yn llaw â *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2008.

1.8 O dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau AB fod â threfniadau ar waith i ymarfer eu swyddogaethau o ran diogelu a hybu lles plant. Mae'r ddogfen hon yn un o'r canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu eu hystyried yn unol ag adran 175 o Ddeddf 2002.

1.9 Mae'r canllawiau hyn hefyd yn berthnasol i berchnogion ysgolion annibynnol o dan adran 157 o Ddeddf 2002.

1.10 Gallai methu â bod â threfniadau yn eu lle fel sy'n ofynnol o dan adran 175 ac adran 157 o Ddeddf Addysg 2002, neu fethu ag ystyried y canllawiau hyn, fod yn sail i Lywodraeth y Cynulliad ddwyn achos yn erbyn awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, neu berchnogion.

1.11 Caiff pob sefydliad addysgol, ysgol annibynnol ac awdurdod lleol eu harolygu gan Estyn ac, mewn rhai achosion, gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Bydd perfformiad y sefydliad o ran eu cyfrifoldeb i ddiogelu a hybu lles plant yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol yn rhan o farn yr arolygwyr perthnasol am berfformiad cyffredinol y sefydliad. Bydd eu perfformiad yn y cyswllt hwn yn cael ei farnu nid yn unig ar sail bod ganddynt weithdrefnau ond hefyd ar ba mor effeithiol ydynt o ran diogelu plant rhag niwed.

1.12 Mae gwasanaethau ataliol sydd wedi'u targedu'n briodol ynghyd ag ymyrraeth gynnar yn ategu dull Llywodraeth Cynulliad Cymru o fynd i'r afael â nifer o'r elfennau sy'n arwain at ganlyniadau gwael i blant. Mae datblygu'r *Fframwaith Asesu Cyffredin (FfAC)* yng Nghymru'n rhoi pwyslais a chefnogaeth i nodi a darparu gwasanaethau ataliol a allai gwella ansawdd bywyd plant a phobl ifanc a lleihau'r tebygolrwydd y cyfyd problemau mwy difrifol sy'n gofyn am lefelau uwch o ymyrraeth. Yng Nghymru, drwy'r cam peilot a lansiwyd ym mis Medi 2007 i ddechrau, cefnogir proses y Fframwaith Asesu Cyffredin gan gronfa ddata a system gyfrifiadurol sy'n hwyluso'r gwaith asesu, a thrwy rannu gwybodaeth a rheoli strategol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthuso canlyniadau'r rhain yn 2008.

1.13 Cysyniadau a diffiniadau allweddol

Daw'r diffiniadau a'r cysyniadau isod o *Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*, ac fe'u cynhwysir yma er hwylustod ac i sicrhau y defnyddir termau cyffredin i helpu gyda'r gwaith a wneir rhwng partneriaid.

Camdriniaeth: emosiynol	Cam-drin plentyn yn emosiynol yn barhaus nes effeithio'n andwyol mewn modd difrifol a pharhaus ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol.
Camdriniaeth: esgeulustod	Gweler <i>Esgeulustod</i> isod.
Camdriniaeth: corfforol	Taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, mygu neu anafu plentyn yn gorfforol mewn rhyw ffordd arall. Gall niwed corfforol gael ei achosi hefyd pan fydd rhiant neu ofalwr yn ffugio symptomau neu gymell salwch plentyn y mae'n gofalu amdano.
Camdriniaeth: rhywiol	Gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, pa un ai a yw'r plentyn yn ymwybodol o beth sy'n digwydd ai peidio, gan gynnwys: - cyswllt corfforol gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol; - gweithgareddau heb gyswllt megis cael plant i wylïo deunydd pornograffig neu i fod yn rhan o ddeunydd pornograffig, neu i wylïo gweithgareddau rhywiol; neu - annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol.

Plentyn mewn angen	Mae plentyn mewn angen os: - yw'n annhebygol o gyflawni neu gynnal, neu gael y cyfle o gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad heb gael gwasanaethau gan awdurdod lleol; - yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn debygol o gael ei niweidio'n sylweddol neu ei niweidio ymhellach heb gael y gwasanaethau hyn; neu - os yw'n anabl.
Amddiffyn Plant	Mae amddiffyn plant yn rhan o drefniadau diogelu a hybu lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gwaith a wneir i ddiogelu plant penodol sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.
Plant	Mae unrhyw un sydd heb gael eu pen-blwydd yn 18 oed yn blentyn. Mae 'plant' felly'n golygu 'plant a phobl ifanc' trwy'r ddogfen gyfan. Nid yw'r ffaith bod plentyn yn un mlwydd ar bymtheg, yn byw'n annibynnol, mewn Addysg Bellach, yn aelod o'r lluoedd arfog, mewn ysbyty, neu mewn carchar neu sefydliad i droseddwy'r ifanc yn newid ei statws na'i hawl i wasanaethau neu i amddiffyniad o dan Ddeddf Plant 1989.
Datblygiad	Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol, neu ymddygiadol.
Niwed	Trin rhywun yn wael neu effeithio'n andwyol ar eu hiechyd neu eu datblygiad, gan gynnwys, er enghraifft, rhywun sy'n dioddef ar ôl gweld neu glywed person arall yn cael ei gam-drin.
Iechyd	Iechyd corfforol neu iechyd meddwl.
Awdurdod Lleol	Cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

Esgeulustod	Esgeuluso plentyn yn barhaus neu'n ddifrifol, neu fethu ag amddiffyn plentyn rhag bod yn agored i unrhyw fath o berygl, gan gynnwys oerni, newyn neu fethiant difrifol i ddarparu agweddau pwysig ar ofal, a hynny'n amharu'n sylweddol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, gan gynnwys methiant anorganig i ffynnu.
Diogelu a hybu lles plant	- Amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso; - Rhwystro unrhyw beth rhag amharu ar eu hiechyd a'u datblygiad - Sicrhau eu bod yn derbyn gofal diogel ac effeithiol; ... er mwyn eu galluogi i gael y cyfleoedd gorau mewn bywyd.
Niwed sylweddol	Mae Adran 31(10) o Ddeddf Plant 1989 yn nodi "where the question of whether harm suffered by a child is significant turns on the child's health or development, his health or development shall be compared with that which could reasonably be expected of a similar child".
Lles	Nid oes diffiniad statudol. Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y rhestr wirio lles y bydd yn rhaid i lys ei hystyried mewn amgylchiadau penodol. Mae Deddf 1989 yn nodi y dylai llys roi sylw penodol i - - deimladau a dymuniadau canfyddadwy'r plentyn dan sylw (wedi eu hystyried yng ngoleuni ei oedran a'i ddealltwriaeth); - ei anghenion corfforol, emosiynol ac addysgol; - yr effaith debygol a gaiff unrhyw newid yn ei amgylchiadau arno; - ei oedran, ei ryw, ei gefndir ac unrhyw rai o'i nodweddion y cred y llys sy'n berthnasol; - unrhyw niwed y mae wedi ei ddioddef neu yn debygol o'i ddioddef; - pa mor abl yw ei ddau riant, ac unrhyw unigolyn arall y cred y llys fod y cwestiwn yn berthnasol iddo, o fodloni ei anghenion; - yr amrywiol bwerau sydd ar gael i'r llys dan y Ddeddf hon yn yr achos dan sylw."

Adran 2: Amcan Cyffredin

2.1 Mae gan bob ysgol, gan gynnwys ysgolion annibynnol, a sefydliadau Addysg Bellach ddyletswydd statudol i ymarfer eu swyddogaeth o ran diogelu a hybu lles eu disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau statudol a nodir yn *Neddf Cysylltiadau Hiliol 1976*, a *Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000*, gan gyfeirio'n benodol at weithredu'r Polisi Cydraddoldeb Hiliol statudol. Mae'r Cod Ymarfer ar y Ddyletswydd i Hyrwyddo Cydraddoldeb Hiliol (2002) a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gosod allan y dyletswyddau statudol sydd ar awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol.

2.2 Mae pawb yn y gwasanaeth addysg yn rhannu amcan i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel drwy gyfrannu at:

- greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant a phobl ifanc;
- nodi lle cyfyd pryderon ynghylch lles plentyn a chymryd camau i fynd i'r afael â hwy, lle bo'n briodol, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill; a
- datblygu dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwytnwch plant drwy'r cwricwlwm.

I gyflawni'r amcan hwn, rhaid cael systemau a ddyfeisiwyd i:-

- atal pobl anaddas rhag gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- hyrwyddo arferion diogel a herio arferion gwael ac anniogel;
- nodi achosion lle mae sail dros bryderu ynghylch lles plentyn, a chymell neu gymryd camau priodol i'w cadw'n ddiogel;
- a chyfrannu at weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

2.3 Pwrpas y canllawiau hyn yw helpu awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau AB i wneud yn siŵr bod ganddynt systemau effeithiol ar waith i gefnogi cyflawni'r amcanion hynny. Dylai staff mewn sefydliadau sydd â diddordeb mewn diogelu plant neu sy'n rhan o waith diogelu plant ddarllen y canllawiau hyn hefyd.

2.4 Dylai pawb sy'n gweithio gyda, neu sy'n cael cyswllt â phlant, rhieni ac oedolion eraill sy'n cael neu sy'n ystyried cael cyswllt â phlant fod yn gallu adnabod a gwybod beth i'w wneud pan welant

dystiolaeth fod rhywbeth yn amharu ar iechyd neu ddatblygiad plentyn, ac yn enwedig os ydynt yn dioddef, neu os ydynt mewn perygl o ddioddef, niwed sylweddol.

2.5 Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am allu adnabod sefyllfaoedd lle mae angen cymorth neu gefnogaeth ychwanegol ar blentyn fel na effeithir ar ei (h)iechyd neu ei (d)datblygiad, neu adnabod unrhyw arwydd posibl o gam-drin neu esgeulustod mewn plant. Yn eu gwaith, dylai'r holl staff roi'r lle blaenaf i les a diogelwch plant. Dylai staff allweddol fod yn gyfarwydd â *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"*.

2.6 Dyma'r math o feysydd y bydd y *Fframwaith Asesu Cyffredin (FfAC)* yn gymorth mawr wrth helpu i ddatblygu ymagwedd fwy systematig at broses asesu i blant y gall fod angen cymorth a chefnogaeth arnynt, ond mewn amgylchiadau lle na fyddai'n briodol o bosibl cyfeirio'n ffurfiol at wasanaethau cymdeithasol neu asiantaethau arbenigol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynhyrchu canllawiau ymarfer, sy'n nodi egwyddorion ac arferion FfAC i ddatblygu dealltwriaeth a hyrwyddo ei ddefnydd.

2.7 Dylai pob aelod o staff sy'n dod i wybod am bryderon am les neu ddiogelwch plentyn neu blant, neu sydd â phryderon eu hunain am les neu ddiogelwch plentyn neu blant, wybod:-

- pryd a sut i gyfeirio'r mater at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol;
- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol;
- sut i gael gafael ar y gwasanaethau hynny;
- pa ffynonellau pellach o gyngor ac arbenigedd sydd ar gael; a
- gyda phwy i gysylltu ym mha amgylchiadau, a sut i ddilyn gweithdrefnau.

Diogelu a Hybu Lles

2.8 Yn sgil cyflwyno'r ddyletswydd o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, y cyfan sy'n ofynnol yw ymarfer y swyddogaethau presennol mewn ffordd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.

2.9 Ceir dwy agwedd ar ddiogelu a hybu lles plant. Y rhain yw:

- trefniadau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risg o niwed i les plant; a
- trefniadau i gymryd pob cam priodol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch lles plentyn, neu blant, drwy weithio'n unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt ac mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

2.10 Mae angen i'r trefniadau a gyflwynir gan awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau AB ddiwallu'r ddwy agwedd hon ar ddiogelu.

2.11 I awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau AB, mae diogelu felly'n fwy na chyfrannu at amddiffyn plant unigol. Mae hefyd yn cwmpasu materion megis *iechyd a diogelwch disgyblion a bwlio*, sydd â gofynion statudol penodol, ac amrediad o faterion eraill megis cael trefniadau i *ddiwallu anghenion plant sydd â chyflyrau meddygol, addysg rhyw a pherthnasoedd, a chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau*, sef materion sydd hefyd â chanllawiau ar eu cyfer gan Lywodraeth y Cynulliad. Efallai hefyd fod materion diogelu eraill sy'n benodol i'r ardal neu'r boblogaeth leol.

2.12 Lle mae gofynion statudol, dylai fod gan awdurdodau lleol a sefydliadau bolisiau a gweithdrefnau ar waith yn barod sy'n eu bodloni, ac sy'n cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Felly hefyd, dylid gallu dangos tystiolaeth o drefniadau ynghylch materion y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau yn eu cylch, ar ffurf polisïau a gweithdrefnau sy'n unol â'r canllawiau hyn neu sy'n cael yr un effaith. Dylai awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion hefyd allu dangos eu bod wedi ystyried a oes gan blant, gan gynnwys plant unigol, yn eu hardal neu eu sefydliad unrhyw anghenion diogelu penodol yn ogystal â'r rhai sy'n dod o dan y canllawiau hynny ac, os oes, bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau ar waith i fodloni'r anghenion hynny.

2.13 Nid yw'r dyletswyddau o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 wedi cael eu cynnwys mewn deddfwriaeth o'r blaen.

Mae'r ddyletswydd i ystyried unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn newydd sbon. Mae darpariaethau eraill adran 175, a'r ddarpariaeth ddiogelu o dan *Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003*, yn nodi'n glir beth yw cyfrifoldeb presennol awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion o ran diogelu a hybu lles plant fel rhan o'u dyletswydd gofal o dan gyfraith gwlad tuag at blant yn eu sefydliad.

2.14 Mae'r darpariaethau hynny'n angori ac yn atgyfnerthu'r ddyletswydd gofal o dan gyfraith gwlad ac yn cyd-fynd â chyfrifoldebau statudol eraill yn y maes hwn, er enghraifft iechyd a diogelwch a delio â bwllo. Maent yn galluogi Llywodraeth y Cynulliad i orfodi cydymffurfio, ac yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion wneud trefniadau yn unol â'r canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad.

2.15 Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith ar ysgwyddau'r awdurdod lleol, ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau AB, ac ar berchnogion ysgolion annibynnol. Nid yw unigolion yn uniongyrchol atebol ac eithrio lle mae perchennog ysgol annibynnol yn digwydd bod yn unigolyn.

2.16 Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswyddau ar benaethiaid, nac ar aelodau eraill o staff, nac ychwaith yn eu gwneud yn atebol am fethu â chael trefniadau ar waith neu fethu ag ystyried Canllawiau Llywodraeth y Cynulliad, mae penaeithiaid ac aelodau eraill o staff yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau yn unol â'r trefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol, y corff llywodraethu, neu'r perchennog. Mater i'r cyflogwr o dan y gweithdrefnau disgyblu presennol yw gorfodi unigolion i gydymffurfio â'r trefniadau hynny.

Creu Amgylchedd Dysgu Diogel

2.17 Mae creu amgylchedd dysgu diogel yn golygu bod â threfniadau effeithiol ar waith i fynd i'r afael ag ystod o faterion. Mae rhai yn amodol ar ofynion statudol, gan gynnwys trefniadau amddiffyn plant, iechyd a diogelwch disgyblion, a bwllo. Mae eraill yn cynnwys trefniadau i ddiwallu anghenion plant sydd

â chyflyrau meddygol, rhoi cymorth cyntaf, diogelwch yr ysgol, delio â chamddefnyddio sylweddau, a bod â threfniadau ar waith i ddiogelu a hybu lles plant ar leoliadau galwedigaethol estynedig.

2.18 Mae hefyd yn golygu bod â threfniadau *recrwtio, disgyblu* a *chofnodi* effeithiol ar waith i sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn y sefydliad yn addas, yn unol â chanllawiau penodol Llywodraeth y Cynulliad.

Nodi ac Ymateb i Bryderon

2.19 Mae gan staff addysg rôl hanfodol i'w chwarae wrth helpu i nodi pryderon o ran lles ac arwyddion o gam-drin neu esgeulustod posibl yn gynnar, gan gyfeirio'r pryderon hynny at yr asiantaeth briodol, fel arfer at yr adran gwasanaethau cymdeithasol, a chyfrannu at asesu anghenion plentyn. Pan fydd gan blentyn anghenion ychwanegol, neu os yw'n anabl, bydd gan staff yr ysgol wybodaeth bwysig am lefel dealltwriaeth y plentyn a'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â'r plentyn. Byddant hefyd mewn sefyllfa dda i roi barn am effaith unrhyw driniaeth neu ymyriad ar ofal neu ymddygiad y plentyn.

2.20 Nid cyfrifoldeb y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth addysg yw ymchwilio i unrhyw achosion posib o gam-drin neu esgeulustod. Dylid codi unrhyw bryderon gyda'r person dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Os yw'r pryder yn ymwneud â honiad yn erbyn aelod o staff mewn ysgol, dylid cyfeirio'r pryder at y pennaeth neu, lle mae honiad wedi'i wneud yn erbyn y pennaeth, dylid ei gyfeirio at gadeirydd y corff llywodraethu a ddylai ofyn am gyngor gan swyddog amddiffyn plant arweiniol yr awdurdod lleol.

2.21 Efallai y bydd yr adran gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymchwilio i'r pryderon yn gofyn i unrhyw aelod o staff am wybodaeth. Efallai y bydd gan staff hefyd rôl yn helpu'r adran gwasanaethau cymdeithasol drwy gyfeirio pryderon, darparu gwybodaeth ar gyfer ymholiadau amddiffyn plant o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, cyfrannu at asesuadau a chymryd rhan mewn cynadleddau ac adolygiadau amddiffyn plant.

2.22 Lle mae gan blentyn oed ysgol gynllun amddiffyn plant rh yngasiantaethol, dylai'r ysgol fod yn rhan o baratoi'r cynllun. Dylid nodi'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r ysgol o ran cyfrannu at weithredu i ddiogelu a hybu lles y plentyn.

Dylai pob ysgol a sefydliad AB:

- fod â pholisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith sy'n cydymffurfio â chanllawiau gan yr awdurdod lleol a gweithdrefnau rhyng-asiantaeth y cytunwyd arnynt yn lleol;
- sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n cael eu darparu mewn fformat sy'n briodol i oed a dealltwriaeth y plentyn, yn enwedig lle mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant gydag anghenion ychwanegol;
- bod ag uwch aelod o staff dynodedig i fod yn bennaf gyfrifol am ddelio â materion amddiffyn plant, rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill, cael cyswllt cyson â'r awdurdod lleol ac i weithio ag asiantaethau eraill. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, uwch aelod o'r staff dysgu fyddai'r person hwn ond mewn rhai sefydliadau, y person dynodedig fyddai'r person sydd wedi'i hyfforddi'n fwyaf priodol i roi cyngor a chefnogaeth i staff eraill. (D.S. dylai dirprwy fod ar gael yn absenoldeb y person dynodedig ac, mewn sefydliadau mawr neu rai gyda nifer o bryderon amddiffyn plant, efallai y bydd angen nifer o ddirprwyon);
- sicrhau bod y polisiau a'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i wasanaethau sy'n ymestyn y tu allan i'r diwrnod ysgol (e.e. llety preswyl os yw'n cael ei ddarparu, gweithgareddau cymunedol mewn adeiladau ysgol neu ar dir yr ysgol, etc);
- bod â gweithdrefnau recriwtio a rheoli staff ar waith sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc, gan gynnwys trefniadau i gyflawni archwiliadau priodol ar staff a gwirfoddolwyr, a gweithdrefnau i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau rhyng-asiantaeth y cytunwyd arnynt yn lleol.

Dylai pob ysgol a sefydliad AB sicrhau bod:

- yr holl staff a gwirfoddolwyr, p'un ai eu bod yn dysgu neu beidio, yn derbyn hyfforddiant priodol i'w harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu'n effeithiol a'i fod yn cael ei ddiweddarau drwy fynychu cyrsiau gloywi;
- y person dynodedig yn derbyn hyfforddiant mewn sut i weithio'n rhyngasiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant, neu yn ôl safonau y cytunwyd arnynt â'r Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth y person dynodedig yn cael eu diweddarau; a bod;
- staff dros dro a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;
- unrhyw ddiffygion neu wendidau o ran y trefniadau diogelu sy'n cael eu dwyn i'w sylw yn cael eu cywiro yn ddi-oed; a
- y corff llywodraethu (neu'r perchennog yn achos ysgol annibynnol) yn penodi llywodraethwr i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant, a sicrhau bod y corff llywodraethu'n adolygu polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn flynyddol, a bod y "llywodraethwr cyswllt" yn cynnal cysylltiad â'r awdurdodau statudol ynghylch *disgyblu staff* mewn achosion amddiffyn plant fel y nodir yn y canllawiau yng *ngghylchlythyr cyfarwyddyd 45/2004* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

2.23 Hefyd, rhaid i gyflogwyr athrawon ac eraill sy'n ymwneud â darparu addysg adrodd ar achosion arbennig o gamymddwyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y nodir yn y canllawiau yng Nghylchlythyr 33/2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, *Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Sector Addysg*.

2.24 Mae Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Byrddau Lleol Diogelu Plant yn cynnig yr un lefel o gefnogaeth a chynghor i ysgolion annibynnol am faterion amddiffyn plant ag i ysgolion a gynhelir. Mae'n arbennig o bwysig bod y sianeli cyfathrebu hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu fel y gellir rhoi sylw'n ddiymdroi i unrhyw blant y mae angen cymorth arnynt ac ymchwilio'n

drylwyr i unrhyw honiadau o gam-drin. Dylai ysgolion annibynnol sy'n darparu gofal meddygol a/neu nyrsio sicrhau bod eu staff meddygol a nyrsio'n cael cyswllt cyson â'r gwasanaethau cyngori a'r hyfforddiant aml-asiantaeth priodol ar amddiffyn plant a'u bod yn defnyddio'r gwasanaethau hynny.

Rhan Rhiant/Gofalwr

2.25 Mae angen i bob rhiant a gofalwr ddeall bod gan ysgolion a sefydliadau AB ddyletswydd i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion neu'n fyfyrwyr gyda hwy, bod y cyfrifoldeb hwn yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael polisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith, ac efallai y bydd angen i ysgol neu sefydliad rannu gwybodaeth a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill pan fydd pryderon ynghylch lles plentyn. Gallai fod yn fuddiol cyfeirio at hyn ym mhrosbectws y sefydliad neu mewn gwybodaeth arall a roddir i rieni/gofalwyr a disgyblion/myfyrwyr. Gweler y nodyn enghreifftiol drafft i rieni a gofalwyr yn **Atodiad C** (Nodyn Enghreifftiol 3).

2.26 Dylai gweithwyr proffesiynol geisio trafod unrhyw bryderon am les plentyn gyda'r teulu a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, gofyn am eu caniatâd i gyfeirio'r achos i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ond pan na fydd yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o niwed sylweddol. Dylid hefyd ystyried barn y plentyn cyn penderfynu a ddylid hysbysu'r teulu mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig lle mae'r plentyn yn ddigon aeddfed i lunio barn wybodus ei hun am y materion dan sylw.

2.27 Lle mae unrhyw amheuon ynghylch cynnwys teulu'r plentyn, dylai'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant gadarnhau gyda'r asiantaethau statudol a ddylid dweud wrth y rhieni neu ofalwyr bod y plentyn am gael ei gyfeirio, ac os felly pryd a chan bwy. Gallai hyn hefyd fod yn bwysig mewn achosion lle bydd angen i'r heddlu gynnal ymchwiliad troseddol efallai. Lle bo hynny'n briodol, dylai'r person dynodedig ar gyfer amddiffyn plant helpu'r rhieni

neu'r gofalwyr i ddeall bod y plentyn yn cael ei gyfeirio er ei les i hun ac y bydd y sefydliad yn cymryd rhan mewn ymchwiliad yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989 neu mewn ymchwiliad gan yr heddlu.

Adran 3: Y Fframwaith ar gyfer Amddiffyn Plant rhag Esgeulustod a chael eu Cam-drin

3.1 Mae'r adrannau isod yn nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol, corff llywodraethu ysgolion a sefydliadau AB, y Prifathro/Brifathrawes neu'r Pennaeth a pherchnogion ysgolion annibynnol.

Rôl yr Awdurdod Lleol

3.2 Mae lles plant yn gyfrifoldeb corfforaethol i'r awdurdod lleol cyfan, a rhaid i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru gyflawni'u dyletswyddau gan ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant yng Nghymru dan adran 28 Deddf 2004.

3.3 Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldebau ar dair lefel:

Strategol - cynllunio a chydlynw'r ddarpariaeth gwasanaethau, a dyrannu adnoddau: gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (e.e. gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, timau troseddau ieuenctid a Byrddau Lleol Diogelu Plant);

Cefnogi - sicrhau bod ysgolion a gynhelir yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau amddiffyn plant: monitro eu perfformiad: darparu hyfforddiant priodol a pholisïau a gweithdrefnau enghreifftiol: darparu cyngor a chefnogaeth; a hwyluso cysylltiadau a chydweithrediad ag asiantaethau eraill. Mae nifer o awdurdodau hefyd yn darparu'r gwasanaethau hyn i ysgolion annibynnol a sefydliadau AB. Mae awdurdodau yn rhydd i wneud hyn, ac i godi'r ffioedd priodol am y gwasanaethau a'r hyfforddiant a ddarperir i ysgolion annibynnol a sefydliadau AB; a

Gweithredol - cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelu plant sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol, neu sydd heb ddod o hyd i le mewn ysgol, er enghraifft plant mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu sy'n cael eu dysgu gan wasanaeth tiwtoriaid cartref yr awdurdod: bod yn rhan o ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr; a sicrhau bod trefniadau ar waith i atal staff a gwirfoddolwyr anaddas rhag gweithio â phlant.

3.4 Mae Deddf Plant 2004 wedi cryfhau rôl awdurdodau lleol wrth ddarparu addysg fel rhieni corfforaethol. Fel gwelliant i Ddeddf Plant 1989, mae Adran 22 yn mewnosod gofyniad bod dyletswydd awdurdod lleol i ddiogelu a hybu lles plentyn sy'n derbyn gofal ganddynt yn benodol yn cynnwys dyletswydd i hybu cyflawniad addysgol y plentyn.

3.5 Mae adran 23B Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plentyn onid ydynt yn fodlon nad oes ar les y plentyn angen hynny.

3.6 Nid yw cyfrifoldeb dros ddiogelu plant sy'n cael eu haddysgu gartref gan eu rhieni neu ofalwyr, neu sy'n gyflogedig, yn faterion addysgol yn unig. Y ffordd orau o ymdrin â'r materion hyn yw drwy ddull aml-asiantaeth fel rhan o weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol yn unol â'r egwyddorion yn *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"* a'r *"Fframwaith Asesu"*.

3.7 Bydd pob awdurdod lleol wedi dynodi uwch swyddog amddiffyn plant i fod yn gyfrifol am ddarparu'r swyddogaethau a'r gwasanaethau uchod ac am reoli'r broses. Gweler **Atodiad A** am grynodedeb o'r cyfrifoldebau a allai ddod o fewn cylch gwaith y swyddog arweiniol. Bydd awdurdodau lleol am ystyried argymhelliad 21.23 yn adroddiad y Comisiynydd Plant ar ei ymchwiliad *Clywch*, sef y dylai awdurdodau ystyried penodi swyddog amser llawn i wneud y gwaith hwn. Gall awdurdodau hefyd fanteisio ar gyngor a chymorth strategol eu Byrddau Lleol Diogelu Plant ynghylch rôl awdurdodau lleol a rôl eu partneriaid perthnasol wrth gydweithredu i wella lles o dan Ddeddf Plant 2004.

3.8 Mae'r mesurau penodol y dylai fod gan awdurdodau lleol ar waith ar gyfer pob un o'r meysydd isod fel a ganlyn.

Cyfrifoldebau Strategol

3.9 Ar y lefel hon dylai'r awdurdod lleol:

- ddyrannu adnoddau i gefnogi gwaith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- sicrhau bod uwch swyddog yn cynrychioli'r awdurdod lleol ar y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a bod yr awdurdod yn cyfrannu'n effeithiol at gynllunio gwasanaethau cydgysylltiedig i ddiwallu anghenion plant;
- gweithio ag asiantaethau eraill i gyflwyno a chefnogi trefniadau effeithiol i weithio mewn partneriaeth;
- dyrannu adnoddau fel bod yr awdurdod ac ysgolion a gynhelir yn cyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant yn foddhaol;
- cael cyswllt cyson â'r awdurdodau esgobaethol priodol ynghylch y trefniadau ar gyfer ysgolion a gynorthwyir yn eu hardal;
- monitro i weld a yw ysgolion a gynhelir yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, yn enwedig o ran bodolaeth a gweithrediad polisiâu a gweithdrefnau priodol, a hyfforddi staff, gan gynnwys yr uwch berson dynodedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant. Dwyn unrhyw ddiffygion i sylw corff llywodraethu'r ysgol a'i gynghori ynghylch pa gamau sydd angen eu cymryd i'w cywiro;
- gweithredu i ddatrys unrhyw broblemau rhyngasiantaethol cyn gynted ag y deir i wybod amdanynt; a
- chwarae rhan lawn mewn adolygu achosion yn unol â Phennod 10 *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"* (Adolygu Achosion Difrifol): adolygu a diwygio gweithdrefnau a hyfforddiant yng ngoleuni canfyddiadau'r adolygiadau hynny, a lledaenu gwybodaeth am ganfyddiadau perthnasol i'r rhai sydd â chyfrifoldeb dynodedig dros amddiffyn plant yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir.

Cyfrifoldebau Cefnogi

3.10 Ar y lefel hon dylai'r awdurdod lleol:

- sicrhau bod hyfforddiant cynefino i'r holl staff newydd yn yr awdurdod, i staff fydd yn gweithio â phlant mewn ysgolion a gynhelir, ac i lywodraethwyr ysgolion a gynhelir, yn cynnwys hyfforddiant ar ddiogelu plant i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a bod hyfforddiant gloywi addas ar gael fel bod sgiliau a gwybodaeth staff yn cael eu diwedddaru hefyd;
- sicrhau bod hyfforddiant pellach ar sut i weithio'n rhyng-asiantaethol i ddiogelu plant, wedi'i ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i safonau'r Bwrdd, ar gael i'r holl staff sy'n cael eu penodi i fod yn bennaf gyfrifol am amddiffyn plant, a bod hyfforddiant gloywi addas ar gael hefyd i ddiwedddaru sgiliau a gwybodaeth uwch aelodau staff dynodedig a hwnnw'n diwallu'r safon a osodir gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- cadw cofnod o'r holl unigolion dynodedig a'r llywodraethwyr a enwebwyd gan y corff llywodraethu i fod yn gyfrifol am faterion amddiffyn plant mewn ysgolion yn eu hardal, pa hyfforddiant a roddwyd i'r unigolion hynny ynghyd â dyddiadau'r hyfforddiant;
- darparu polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol i ysgolion a gynhelir ar bob agwedd ar amddiffyn plant, gan gynnwys fetio staff a gwirfoddolwyr newydd, a gweithdrefnau ar gyfer delio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr. Dylai'r awdurdod sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn cydymffurfio â chanllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad ac â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant ar weithio'n rhyng-asiantaethol ym mhob cyswllt priodol. Gweler Atodiad C am enghraifft o bolisi amddiffyn plant drafft, a chanllawiau ar y materion hyn;
- darparu cyngor a chefnogaeth i ysgolion a gynhelir, ac i uwch staff dynodedig yn y sefydliadau hynny, ar ddelio ag achosion unigol: gweithredu ar eu rhan lle bo angen i ddatrys unrhyw anawsterau gydag asiantaethau partner y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i gael y cymorth priodol ganddynt; a

- bod â threfniadau ar waith i gefnogi staff yn yr awdurdod ac mewn ysgolion a gynhelir sy'n bennaf gyfrifol am faes amddiffyn plant, ac i annog a meithrin dealltwriaeth a pherthynas weithio dda rhyngddynt, gweithwyr cymdeithasol plant a staff mewn asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelu plant, i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.

Cyfrifoldebau Gweithredol

3.11 Ar y lefel hon dylai'r awdurdod lleol:

- fod â gweithdrefnau recriwtio diogel a gwneud yn siŵr fod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cyflawni ar staff a gwirfoddolwyr newydd fydd yn gweithio â phlant, gan gynnwys archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a Rhestr 99 yn unol â chanllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad; (Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i ofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd a gyflwynir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006);
- bod â threfniadau ar waith i ddiogelu a hybu lles plant sydd heb gael lle ysgol, neu sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol, gan gynnwys rhai sy'n cael eu dysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion neu gan y gwasanaeth tiwtoriaid cartref. Fel y nodir yn 3.6 uchod, mae diogelu lles plant sy'n cael eu dysgu gartref gan rieni neu ofalwyr, neu sy'n gyflogedig, yn gyfrifoldeb aml-asiantaeth a ddylai fod yn rhan o weithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol yn unol â'r egwyddorion yn *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"*. Dylai awdurdodau lleol geisio meithrin perthynas effeithiol gyda'r sawl sy'n addysgu gartref i ddiogelu budd addysgol a lles plant a phobl ifanc. Wrth wneud hyn, bydd rhieni'n cael gafael ar unrhyw gefnogaeth sydd ar gael a bydd yn caniatáu i awdurdodau ddeall darpariaeth addysgol y rhieni; i gael rhagor o wybodaeth darllenwch Bennod 6 Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion*, Cylchlythyr 47/2006;

- bod â gweithdrefnau ar waith i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn aelodau o staff yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, a gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau partner y Bwrdd Lleol Diogelu Plant i sicrhau yr ymdrinnir â'r honiadau hyn yn sydyn, yn deg ac yn gyson; a
- sicrhau bod staff yr awdurdod (gan gynnwys unrhyw staff sy'n cyflawni swyddogaethau ar ran yr awdurdod) sy'n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant i'w harfogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol.

Rôl Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir

3.12 Mae cyrff llywodraethu'n atebol am sicrhau bod gan eu sefydliad bolisiau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu lles plant yn unol â'r canllawiau hyn, ac am fonitro bod yr ysgol yn cydymffurfio â hwy.

3.13 Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol lle mae honiad amddiffyn plant wedi'i wneud yn erbyn aelod o staff. Dylai'r gweithdrefnau i'w dilyn yn yr achosion hynny gael eu nodi yng ngweithdrefnau disgyblu staff y corff llywodraethu 'y cytunwyd arnynt' a ddylai wedyn ystyried y canllawiau yng nghylchlythyr 45/2004 Llywodraeth Cynulliad Cymru *"Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion"*. Ceir canllawiau pellach ar weithdrefnau disgyblu staff cyrff llywodraethu mewn perthynas â honiadau amddiffyn plant yn Adran 4 y canllawiau hyn.

3.14 Er bod gan gyrff llywodraethu rôl mewn ymarfer eu swyddogaethau disgyblu yng nghyswllt honiadau amddiffyn plant yn erbyn staff, nid oes ganddynt ran yn y broses o ystyried achosion unigol a gyflawnir gan yr awdurdod statudol mewn cyfarfod strategaeth. Ymdrinnir â'r achosion hyn yn fwy priodol ar lefel weithredol gan staff yr ysgol fel rhan o ddull aml-asiantaeth, yn unol â threfniadau lleol a *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"*.

3.15 Mae rhai cyrff llywodraethu wedi cael budd o gael aelod unigol o'r corff llywodraethu yn 'llywodraethwr cyswllt' i hyrwyddo materion amddiffyn plant yn yr ysgol, i gael cyswllt cyson â'r

prifathro/prifathrawes, ac i ddarparu gwybodaeth ac adroddiadau i'r corff llywodraethu ar faterion lle nad oes honiadau yn erbyn staff. Byddai'n briodol i'r corff llywodraethu hefyd benodi'r prifathro/prifathrawes neu gadeirydd y llywodraethwyr i gyflawni'r rôl hon. Mae canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru *Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion*: Cylchlythyr 45/04 yn disgrifio rôl y 'llywodraethwr cyswllt'. Bydd ar gyrff llywodraethu eisiau ystyried y cyfle i ymestyn y rôl hon i gynnwys bod yn gyfrifol am ymarfer swyddogaethau'r corff llywodraethu fel y nodir isod, fel rhan o'i gyfrifoldebau adran 175. P'un ai a yw'r corff llywodraethu'n gweithredu'n gyfunol neu'n dynodi aelod unigol i arwain ar hyn, er mwyn i'r corff llywodraethu fod â pholisi effeithiol ar waith ac i'r llywodraethwyr cyswllt fod yn hyderus yn eu swyddogaeth, byddai'n fuddiol trefnu bod holl aelodau'r corff llywodraethu yn derbyn hyfforddiant perthnasol ar amddiffyn plant fel bod ganddynt yr wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau ac i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach.

3.16 Dylai gyrff llywodraethu sicrhau-

- bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant effeithiol ar waith sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r awdurdod lleol a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- bod y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol o leiaf a'i fod ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais;
- bod gan yr ysgol weithdrefn ddisgyblu gyfredol y cytunwyd arni ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn erbyn staff, gan gynnwys honiadau amddiffyn plant, a'i bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys penodi ymchwilydd annibynnol, ac yn ystyried canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yng nghylchlythyr 45/2004 a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- bod gan yr ysgol gweithdrefnau *recrwtio* diogel ac yn sicrhau bod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cyflawni ar staff newydd a *gwirfoddolwyr* newydd fydd yn gweithio â phlant, gan gynnwys archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a Rhestr 99 yn unol â chanllawiau cyfredol; (Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i ofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd a gyflwynir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006).

- bod uwch aelod o dîm arwain/rheoli'r ysgol wedi'i ddynodi i fod yn bennaf gyfrifol am ddelio â materion amddiffyn plant, ac yn rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill, yn cynnal cyswllt â'r awdurdod lleol ac yn gweithio ag asiantaethau eraill. Nid oes raid i'r person dynodedig fod yn athro neu'n athrawes ond rhaid iddynt fod â statws ac awdurdod o fewn yr ysgol i gyflawni dyletswyddau'r swydd (gweler **Atodiad B**), gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion amddiffyn plant a, lle bo hynny'n briodol, cyfarwyddo staff eraill. Mewn nifer o ysgolion, bydd un person dynodedig yn ddigon, ond dylid dynodi dirprwy yn absenoldeb y person dynodedig. Mewn sefydliadau mawr, neu rai gyda nifer fawr o bryderon amddiffyn plant, efallai y bydd angen dynodi nifer o ddirprwyon i ysgwyddo'r llwyth gwaith;
- yn ogystal â'r hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, bod y person dynodedig yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithio'n rhyng-asiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i safonau'r Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyson;
- bod y prifathro/prifathrawes a'r holl staff a gwirfoddolwyr parhaol eraill sy'n gweithio â phlant yn derbyn yr hyfforddiant priodol fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau eu gwybodaeth. Hefyd bod staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n dirprwyo yn ystod absenoldebau tymor byr, ac a fydd yn gweithio â phlant, yn derbyn canllawiau clir ynghylch trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;
- bod y corff llywodraethu yn cywiro'n ddi oed unrhyw ddiffygion neu wendidau yn y trefniadau amddiffyn plant sy'n cael eu dwyn i'w sylw; a
- bod y corff llywodraethu'n adolygu ei bolisiâu a gweithdrefnau diogelu plant yn flynyddol a, phan ofynnir amdani, yn darparu gwybodaeth i'r awdurdod lleol am sut y cyflawnwyd y dyletswyddau uchod.

Rôl Cyrff Llywodraethu Sefydliadau Addysg Bellach

3.17 Mae cyfrifoldebau cyrff llywodraethu (Corfforaethau) sefydliadau addysg bellach yn debyg mewn egwyddor i rai cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ac mae'r canllawiau ym mharagraffau 3.12 - 3.16 uchod yn berthnasol (ar ôl eu haddasu'n briodol). Fodd bynnag, mae sefydliadau AB hefyd yn wahanol i ysgolion mewn rhai ffyrdd. Mae'r cyfrifoldebau statudol dros ddiogelu ac amddiffyn plant ond yn berthnasol i fyfyrwyr o dan ddeunaw oed. Gan fod y sefydliadau AB yn rheoli eu hunain, ni allant ddibynnu'n awtomatig ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor, cefnogaeth a mynediad at hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau, ayb. iddynt. Mae awdurdodau lleol yn rhydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn i sefydliadau AB, ond nid oes raid iddynt. Mae modd darparu'r gwasanaethau yn rhad ac am ddim. Gall sefydliadau sy'n dewis peidio â phrynu gwasanaethau gan yr awdurdod lleol ofyn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant am gyngor.

3.18 Felly, mae'r trefniadau y mae angen i gyrff llywodraethu sefydliadau AB eu rhoi ar waith ar gyfer myfyrwyr dan 18 oed yn debyg mewn egwyddor i'r rhai a restrir ym mharagraff 3.16 (ar ôl eu haddasu'n briodol).

3.19 Yn benodol, dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod gan y sefydliad:

- bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith sy'n cydymffurfio â'r gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol, a bod y polisi ar gael i fyfyrwyr/rhieni neu ofalwyr os gofynnir amdano;
- gweithdrefnau ar waith i ddelio â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr a'u bod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol;
- gweithdrefnau *recrwtio* diogel ar waith a gwneud yn siŵr fod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cyflawni ar *staff* newydd a *gwirfoddolwyr* newydd fydd yn gweithio â phlant, gan gynnwys archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a Rhestr 99, (Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i ofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd a gyflwynir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006);

- uwch aelod o staff y sefydliad sydd wedi'i ddynodi i fod yn bennaf gyfrifol am ddelio â materion amddiffyn plant, rhoi cyngor a chefnogaeth i staff eraill, cael cyswllt â'r awdurdod lleol, a gweithio ag asiantaethau eraill. Rhaid i'r person dynodedig fod â'r statws a'r awdurdod o fewn tîm rheoli'r sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd (gweler Atodiad B), gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion amddiffyn plant a, lle bo hynny'n briodol, cyfarwyddo staff eraill. Efallai mai cyfrifoldeb trefniadau lles myfyrwyr neu gefnogi myfyrwyr yw delio ag achosion unigol mewn sefydliadau, ond mae'n bwysig bod uwch aelod o staff yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros y gwaith hwn;
- lle mae sefydliad yn darparu addysg a/neu hyfforddiant i ddisgyblion dan 16 oed sydd ar gofrestr ysgol uwchradd, bod y person dynodedig yn cael cyswllt â'r ysgolion dan sylw ac yn sicrhau bod y trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r plant; gan gynnwys materion megis cofrestru disgyblion a threfniadau presenoldeb trwy gydol y dydd.

Yn ogystal â'r hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, bod y person dynodedig yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithio'n rhyng-asiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i safonau'r Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyson.

Bod y Pennaeth a'r holl staff a'r gwirfoddolwyr parhaol eraill sy'n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant priodol fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau eu gwybodaeth. Bod staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n dirprwyo yn ystod absenoldebau tymor byr, ac a fydd yn gweithio â phlant a phobl ifanc, yn derbyn canllawiau clir ynghylch trefniadau'r sefydliad ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau.

Bod y corff llywodraethu yn cywiro'n ddi-oed unrhyw ddiffygion neu wendidau yn y trefniadau amddiffyn plant sy'n cael eu dwyn i'w sylw; a bod y corff llywodraethu'n cynnal adolygiad blynyddol o'i bolisiau a gweithdrefnau diogelu a sut y cyflawnodd y dyletswyddau uchod.

Rôl Prifathrawon a Phenaethiaid

3.20 Dylai prifathrawon ysgolion a Phenaethiaid sefydliadau AB sicrhau:

- bod y polisiau a'r gweithdrefnau amddiffyn plant sy'n cael eu mabwysiadu gan y corff llywodraethu neu'r perchennog yn cael eu gweithredu'n llawn, a bod yr holl staff yn eu dilyn;
- bod digon o adnoddau ac amser yn cael eu dyrannu fel bod y person dynodedig a staff eraill yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrannu at drafodaethau strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, ac at asesiadau plant; a
- bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn deall y gweithdrefnau ac yn teimlo y medrant godi pryderon ynghylch unrhyw arferion gwael neu anniogel yng nghyswllt plant, ac yr ymdrinnir yn sensitif, yn effeithiol ac yn brydlon â'r pryderon hynny yn unol â'r *Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol* - cylchlythyr 36/2007.

Rôl Perchnogion Ysgolion Annibynnol

3. 21 Mae gan berchnogion ysgolion annibynnol gyfrifoldebau tebyg i'r rhai sydd gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, ond ni allant ddibynnu ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth etc iddynt yn yr un modd ag y gwnânt i ysgolion a gynhelir. Mae awdurdodau'n rhydd i ddarparu'r gwasanaethau hyn i ysgolion annibynnol, ac mae llawer yn gwneud hynny ac yn codi'r ffioedd priodol am y gwaith, ond nid oes raid iddynt. Fel gyda sefydliadau AB, gall ysgolion annibynnol sy'n dewis peidio â phrynu gwasanaethau gan yr awdurdod lleol ofyn i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant am gyngor. Pa benderfyniad bynnag a gymerir, dylai perchnogion sicrhau:

- eu bod yn cydymffurfio â gofynion *"Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003"*;
- bod gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant ar waith sy'n unol â gweithdrefnau rhyng asiantaeth y cytunwyd arnynt yn lleol, a bod y polisi'n cael ei roi i rieni neu ofalwyr os gofynnant amdano;

- bod gan yr ysgol weithdrefnau ar gyfer delio â honiadau o gamymddwyn yn erbyn staff, sy'n cydymffurfio â gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol a bod y perchennog yn cael cyswllt ag asiantaethau eraill os gwneir honiadau yn erbyn y prifathro neu'r brifathrawes, lle nad y perchennog yw'r prifathro neu'r brifathrawes. Lle mai'r perchennog yw'r prifathro neu'r brifathrawes hefyd, dylid cytuno ar drefniadau penodol gyda'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- bod gan yr ysgol weithdrefnau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod yr holl archwiliadau priodol yn cael eu cyflawni ar gyfer staff a gwirfoddolwyr newydd fydd yn gweithio â phlant, gan gynnwys archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a Rhestr 99; (Nid yw'r canllawiau hyn yn berthnasol i ofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd a gyflwynir dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006);
- bod gan yr ysgol uwch aelod o dîm arwain/rheoli'r ysgol wedi'i ddynodi i fod yn bennaf gyfrifol am ddelio â materion amddiffyn plant, a thros gael cyswllt â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau eraill pan fydd angen. Nid oes raid i'r person dynodedig fod yn athro neu'n athrawes ond rhaid iddynt fod â statws ac awdurdod o fewn yr ysgol i gyflawni dyletswyddau'r swydd (gweler **Atodiad B**), gan gynnwys ymrwymo adnoddau i faterion amddiffyn plant a, lle bo hynny'n briodol, cyfarwyddo staff eraill. Mewn nifer o ysgolion annibynnol, bydd un person dynodedig yn ddigon, ond dylid dynodi dirprwy yn absenoldeb y person dynodedig ac, mewn ysgolion sydd ar fwy nag un safle neu sydd â strwythur rheoli ar wahân, dylid cael person dynodedig ar gyfer pob safle neu ran o'r ysgol;
- yn ogystal â'r hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol, bod y person dynodedig yn derbyn hyfforddiant ar sut i weithio'n rhyngasiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu i safonau'r Bwrdd, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau ei sgiliau a'i wybodaeth yn gyson;

- bod y prifathro/brifathrawes a'r holl staff a'r gwirfoddolwyr parhaol eraill sy'n gweithio â phlant yn derbyn hyfforddiant priodol fel y gallant gyflawni eu cyfrifoldebau amddiffyn plant yn effeithiol, a hyfforddiant gloywi i ddiweddarau eu gwybodaeth. Rhaid sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr dros dro sy'n gweithio gyda phlant yn ymwybodol o drefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant a'u cyfrifoldebau;
- bod unrhyw ddiffygion neu wendidau yn y trefniadau amddiffyn plant yn cael eu cywiro'n ddi-oed; a
- bod y perchennog yn adolygu polisïau a gweithdrefnau diogelu plant yr ysgol yn flynyddol a'r modd y cyflawnwyd y dyletswyddau uchod.

Ysgolion Preswyl

3.22 Bydd perchnogion ysgolion annibynnol sy'n darparu llety i blant yn ymwybodol bod y sefydliadau hyn yn cael eu harolygu gan Estyn a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar y "*Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl*" a'r "*Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl*" y dylid cadw atynt fel rhan o'r broses gofrestru gychwynnol a pharhaus gan ysgolion annibynnol.

3.23 Mae "*Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003*" yn nodi safonau ar gyfer diogelu a hybu lles plant lle darperir llety ar eu cyfer gan ysgol breswyl. Defnyddir y safonau hyn i asesu a yw'r ysgol yn cydymffurfio â'i hymrwymiad cyfreithiol i ddiogelu a hybu lles y plant y darperir llety ar eu cyfer. Mae Safon 5 yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl, a Safon 3 yn y Safonau ar gyfer Ysgolion Preswyl, yn benodol i amddiffyn plant a honiadau o gam-rin ac yn disgrifio'r trefniadau y mae'n rhaid iddynt fod ar waith i gyflawni'r safonau hyn.

Ysgolion Bro, Gweithgareddau Cyn ac Ar Ôl Ysgol a Dysgu y Tu Allan i Orlau

3.24 Mae corff llywodraethu ysgol yn rheoli'r defnydd a wneir o adeiladau a thir yr ysgol yn ystod a'r tu allan i oriau'r ysgol, ac eithrio lle mae dogfen ymddiriedolaeth yn caniatáu i rywun heblaw'r corff llywodraethu eu defnyddio, neu lle mae cytundeb trosglwyddo rheolaeth wedi'i wneud. Gall cyrff llywodraethu lunio cytundebau trosglwyddo rheolaeth er mwyn rhannu rheolaeth o adeiladau neu dir yr ysgol â chorff arall, neu drosglwyddo rheolaeth yn llwyr iddo. Bydd y corff arall, a elwir yn 'gorff rheolaethol', yn rheoli meddiant a defnydd o'r adeiladau neu'r tir ar yr adegau a nodir yn y cytundeb. Drwy drosglwyddo rheolaeth ar yr adeiladau neu'r tir i grwpiau cymunedol lleol, cymdeithasau chwaraeon neu ddarparwyr gwasanaeth, gellir defnyddio cyfleusterau'r ysgol heb fod angen i staff yr ysgol gyfrannu eu hamser rheoli neu weinyddol.

3.25 Lle mae'r corff llywodraethu'n darparu gwasanaethau neu weithgareddau'n uniongyrchol dan oruchwyliaeth neu reolaeth staff yr ysgol, bydd trefniadau'r ysgol ar gyfer amddiffyn plant yn berthnasol. Lle darperir gwasanaethau neu weithgareddau ar wahân gan gorff arall, dylai'r corff llywodraethu gadarnhau bod gan y corff dan sylw bolisiau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant a bod trefniadau ar waith i gael cyswllt â'r ysgol ar y materion hyn lle bo hynny'n briodol.

Hyfforddiant Amddiffyn Plant/Hyfforddiant Rhyngasiantaethol

3.26 Mae angen i'r holl staff sy'n gweithio â phlant fod wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant sylfaenol fel y gallant adnabod ac ymateb i bryderon lles plant. Bydd manylder a dwyster yr hyfforddiant sydd ei angen ar wahanol grwpiau yn amrywio yn ôl natur eu rôl a faint y maent yn ymwneud â phlant.

3.27 Mae asiantaethau unigol yn gyfrifol am sicrhau bod eu staff yn gymwys a hyderus i gyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelu a hybu lles plant. Bydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant yn gallu rhoi

cyngor am y lefelau hyfforddiant sylfaenol sydd angen i staff eu derbyn fel y gallant gydymffurfio â gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn lleol. Mae rhagor o wybodaeth am Hyfforddiant a Datblygu Rhyng-asiantaeth ar gael ym Mhennod 11 *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"*.

3.28 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn cynnwys darpariaeth benodol fel bod yr holl staff mewn ysgolion ac awdurdodau lleol yn derbyn hyfforddiant aml-asiantaeth ar weithdrefnau amddiffyn plant fel eu bod yn gallu bod yn effro i unrhyw arwydd o gam-drin ac esgeulustod ac yn gwybod i bwy y dylent roi gwybod am eu pryderon neu amheuon, a chysylltu â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant, yng nghyd-destun mesurau diogelu yn yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys mentrau sy'n arwain at ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a systemau effeithiol a ddyfeisiwyd i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.

3.29 Pwrpas hyfforddiant aml-asiantaeth yw helpu i ddatblygu a meithrin y canlynol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc:

- dealltwriaeth gyffredin o'r tasgau, y prosesau, yr egwyddorion, a'r rolau a'r cyfrifoldebau a nodir mewn canllawiau cenedlaethol ac yn y trefniadau lleol ar gyfer diogelu plant a hybu eu lles;
- gwasanaethau mwy effeithiol ac integredig ar lefel strategol ac ar lefel achosion unigol;
- cyfathrebu gwell rhwng gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys cyd-ddealltwriaeth o dermau a diffiniadau allweddol, a'r trothwyon ar gyfer gweithredu;
- cysylltiadau gweithio effeithiol, gan gynnwys gallu gweithio mewn grwpiau neu dimau amlddisgyblaeth; a,
- phenderfyniadau cadarn sy'n seiliedig ar rannu gwybodaeth, asesu trylwyr, dadansoddiad beirniadol a barn broffesiynol.

3.30 Dylai pob aelod o staff, p'un ai'n barhaol neu dros dro, a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio â phlant, fel rhan o'r broses gynefino, dderbyn datganiad ysgrifenedig ar bolisi a gweithdrefnau'r ysgol, ynghyd ag enw a manylion cyswllt y person dynodedig o ran amddiffyn plant yn syth ar ôl iddynt ddechrau gweithio mewn sefydliad newydd.

3.31 Pan fydd y staff dynodedig sy'n bennaf gyfrifol am amddiffyn plant yn dechrau yn y rôl hon, dylent dderbyn hyfforddiant ar weithdrefnau rhyngasiantaethol fel y gallant weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill ac fel bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu cyfrifoldebau. Dylent hefyd dderbyn hyfforddiant gloywi i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyson.

3.32 Dylai aelodau eraill o staff dderbyn hyfforddiant pan benodir hwynt gyntaf ynghyd â hyfforddiant gloywi priodol i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyson.

3.33 Bydd athrawon wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant fel rhan o'r cwrs cyn ennill Statws Athro Cymwysedig ond bydd angen atgyfnerthu hyn drwy ddarparu hyfforddiant pellach, neu hyfforddiant gloywi, pan benodir hwynt gyntaf ynghyd â hyfforddiant gloywi addas i ddiweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyson.

3.34 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyflwyno deddfwriaeth gyda gofynion diwygiedig ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon. Mae'n nodi bod yn rhaid i bob darparwr sicrhau bod hyfforddeion yn gyfarwydd â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf ar amddiffyn plant, gan gynnwys ag adroddiad *Clywch* Comisiynydd Plant Cymru ar gam-drin plant; bod cyrsiau hyfforddi yn cynnwys ymwybyddiaeth o sut y gallai camdrinwyr weithredu; a bod canfyddiadau'r adroddiad *Clywch* yn rhan o gyrsiau hyfforddi.

3.35 Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi cyhoeddi "*Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau*" ar ffurf cylchlythyr cyfarwyddyd 41/2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ymdrin â'r mater hwn ac yn rhoi gwybodaeth i ddarparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon am y meysydd pryder arbennig a godir yn adroddiad y Comisiynydd Plant.

Cyngor ychwanegol am Ddiogelu Plant

3.36 Mae **Atodiad D** yn darparu cyngor ychwanegol am ystod o bynciau a all fod o fudd i awdurdodau lleol, llywodraethwyr, perchnogion, penaethiaid a phrifathrawon wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o ran diogelu plant a phobl ifanc.

3.37 Mae **Atodiad E** yn darparu Siartiau Llif trefniadol pan fydd gan ymarferydd neu aelod staff bryderon am les plentyn. Cymerwyd y rhain o Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004.

Adran 4 - Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant

Penodi Staff

4.1 Mae arferion recriwtio mwy diogel yn golygu meddwl am faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu a hybu lles plant ym mhob cam o'r broses, a chynnwys y materion hynny. Mae'n cychwyn gyda'r broses o gynllunio'r ymarfer recriwtio a, lle caiff y swydd ei hysbysebu, nodi'n glir ymrwymiad y sefydliad i ddiogelu a hybu lles plant. Mae'n gofyn hefyd am broses gyson a thrylwyr o archwilio ymgeiswyr, cadarnhau pwy ydynt a chadarnhau unrhyw gymwysterau academiaidd neu alwedigaethol sydd ganddynt, cael geirdaon proffesiynol a chymeriad, gwirio hanes cyflogaeth flaenorol a chadarnhau bod ymgeisydd yn iach ac yn abl yn gorfforol i gyflawni'r swydd, a chyfweliad wyneb-yn-wyneb yn ogystal â'r archwiliad gorfodol o Restr 99 a, lle y bo yn briodol, archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT).

4.2 Gellir cael mwy o gyngor yng nghylchlythyr cyfarwyddyd 34/2002 Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Amddiffyn Plant: Rhwystro Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg*" a chylchlythyr 02/2003 "*Y Swyddfa Cofnodion Troseddol: Archwiliadau ar Wirfoddolwyr*". Cyhoeddwyd atodiad i gylchlythyr 02/2003 ar ôl i'r gofynion gael eu diwygio fel y nodir yn *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007* sydd wedi diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau staff gael archwiliad manwl gan y SCT ac mae hefyd yn pennu'r gofynion yng nghyswllt staff dros dro neu ategol a ddarperir gan asiantaeth.

4.3 Nodir y gofynion diwygiedig ar gyfer archwiliadau cyn-cyflogi ar gyfer staff sy'n darparu addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yn Rheoliadau *Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007*.

4.4 Yn unol â *Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006*, rhaid i bob athro sy'n gwneud cais i gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC) am y tro cyntaf, neu'r athrawon hynny y mae

eu cofrestriad wedi dod i ben, gael archwiliad gan y Cyngor i weld a ydynt yn addas. Mae'r archwiliadau i weld a yw person yn addas yn galluogi'r Cyngor i wirio cymwysterau; sicrhau bod y cyfnod cynefino wedi'i gwblhau'n foddhaol; sicrhau nad oes gwaharddiadau na chyfyngiadau ar gyflogaeth, gorchmynion disgyblu na gwaharddiadau; ynghyd â chynnal archwiliad datgelu manwl llawn gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

4.5 Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys gofynion y cynllun Fetio a Gwahardd newydd sydd i'w gyflwyno dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006. Cyhoeddir canllawiau ar wahân ar gyfer y Cynllun.

Delio â Honiadau o Gam-drin yn erbyn Athrawon a Staff nad ydynt yn Addysgu mewn Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru

4.6 Mae'n hanfodol yr ymdrinnir ag unrhyw honiad o gam-drin yn erbyn athro/athrawes neu aelod arall o staff mewn lleoliad addysgol yn deg, yn gyflym ac yn gyson, mewn modd sy'n amddiffyn y plentyn yn effeithiol, ac ar yr un pryd yn cefnogi'r person sy'n destun yr honiad.

4.7 Unwaith y bydd yr awdurdodau statudol h.y. yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cwblhau'u gwaith o ystyried honiad ynghylch amddiffyn plant gan ddefnyddio gweithdrefnau diogelu plant y cytunwyd arnynt yn lleol, trosglwyddir y mater i'r corff llywodraethu i gwblhau'r broses disgyblu staff ar lefel ysgol. Cyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am faterion disgyblu staff ym mhob ysgol a gynhelir. Rhaid i gorff llywodraethu fabwysiadu rheolau a rheoliadau i reoleiddio ymddygiad a disgyblaeth pob aelod o staff y mae'n ei gyflogi neu y mae'n gyfrifol amdanynt o ddydd i ddydd. Nid yw hyn yn cynnwys rhai staff ategol, athrawon llanw neu wirfoddolwyr.

4.8 Wrth ddelio â materion disgyblu staff sy'n ymwneud â honiadau amddiffyn plant, rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru gydymffurfio hefyd â'r rheoliadau canlynol:- *Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005*; a *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006*.

Pan wneir honiadau yn erbyn aelod o staff yr ysgol sy'n cynnwys materion amddiffyn plant, rhaid i'r corff llywodraethu benodi ymchwilydd annibynnol i ymchwilio i'r honiadau cyn y cynhelir gwrandawriad yn ymwneud â'r digwyddiad.

4.9 Er mwyn helpu cyrff llywodraethu i gyflawni'r gofyniad i gael ymchwilydd annibynnol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gwasanaeth ymchwilio annibynnol sydd ar gael yn rhad ac am ddim i gyrff llywodraethu. Cyhoeddwyd tri llythyr cyfarwyddyd manwl yn esbonio'r gwasanaeth hwn a sut mae'n cyd-fynd â gweithdrefnau lleol sydd eisoes wedi'i sefydlu i ddiogelu plant/ amddiffyn plant ac fe'u dosbarthwyd i bob ysgol ac Awdurdod Addysg Lleol. Mae'r llythyrau dyddiedig 9 Tachwedd 2006, 31 Mawrth a 31 Awst 2007 ar gael ar y wefan ganlynol - SMD2@wales.gsi.gov.uk neu gellir ffonio 029 20 826051.

4.10 Mae cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 45/2004 "*Gweithdrefnau Disgyblu Staff mewn Ysgolion*" hefyd yn rhoi cyngor penodol i'w ddilyn pan wneir honiad sy'n ymwneud ag amddiffyn plant yn erbyn aelod o staff. Mae'r Canllawiau'n nodi cyfrifoldebau cyfreithiol cyrff llywodraethu ar faterion disgyblu ac yn tynnu sylw at yr angen i gyrff llywodraethu weithredu'n deg.

Cyflwyno Adroddiadau ar Achosion i Lywodraeth Cynulliad Cymru a Rôl Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

4.11 Mae *Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003* yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cyflogi athrawon, ac eraill y mae eu gwaith yn ymwneud â darparu addysg, ac asiantaethau cyflenwi athrawon, i roi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am achosion penodol o gamymddwyn. Rhaid rhoi gwybod pan fydd cyflogwyr neu asiantaethau yn peidio â defnyddio gwasanaethau rhywun oherwydd nad ydynt yn addas i weithio gyda phlant, neu oherwydd camymddygiad neu faterion iechyd lle bo hynny'n ymwneud â diogelwch a lles plant. Hefyd mae angen rhoi gwybod mewn achos lle *gallai'r* cyflogwr fod wedi peidio â defnyddio gwasanaethau'r person am un o'r rhesymau uchod oni fyddai ef neu hi eisoes wedi peidio

â darparu'r gwasanaethau hyn. Felly mae'n ofynnol i gyflogwr wneud adroddiad os diswyddir person am un o'r rhesymau hynny neu lle bo rhywun yn ymddiswyddo mewn amgylchiadau lle byddai wedi cael ei ddiswyddo, neu y gallai fod wedi cael ei ddiswyddo, am y rhesymau hynny.

4.12 Trosglwyddir achosion o ymddygiad proffesiynol annerbyniol i'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd sy'n delio â phob achos ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â chytundeb concordat.

4.13 Mae'r Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd yn delio ag achosion sy'n ymwneud â diogelwch a lles plant, cwestiynau ffitrwydd meddygol, neu os nad yw'r person yn athro/athrawes neu lle bo'n athro/athrawes anghofrestredig. Mae'r achosion sy'n cynnwys athrawon cofrestredig ond lle nad oes goblygiadau o ran lles plant (megis troseddau'n ymwneud â chyffuriau, dwyn arian neu eiddo ysgol, neu drosedd sy'n ymwneud â thrais difrifol ond nid yn erbyn plentyn), yn cael eu trosglwyddo gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru i fod yn destun ymchwiliad yn unol â phwerau disgyblu'r Cyngor.

4.14 Mae gan bob cyflogwr, sef er enghraifft, awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau AB, cyrff ac asiantau eraill, ddyletswydd statudol i wneud adroddiadau, ac i ddarparu gwybodaeth berthnasol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r canllawiau yng nghylchlythyr 33/2005 *"Cyflwyno Adroddiad ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg"*.

Rhannu Gwybodaeth

4.15 Mae canllawiau ar rannu gwybodaeth am blant a phobl ifanc yn cynnwys pob gwasanaeth gan gynnwys addysg; blynyddoedd cynnar a gofal plant; iechyd; gofal cymdeithasol; troseddau ymhlith pobl ifanc; yr heddlu; gwasanaethau cynghori a chefnogi a hamdden.

4.16 Mae rhagor o wybodaeth am rannu gwybodaeth ar gael yn Atodiad F.

Meysydd Cyfrifoldeb Eang ar gyfer Swyddogion Dynodedig Amddiffyn Plant Arweiniol mewn Awdurdodau Lleol

Cydlynu

- strwythur staff i ddarparu cyfrifoldebau
- cyllid ar gyfer gweithgareddau awdurdodau lleol.

Darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth

- gwaith achos, ymddangos yn y Llys, materion cyfreithiol;
- deddfwriaeth newydd;
- rheoli adroddiadau o ddisgyblion sydd ar goll;
- honiadau yn erbyn staff; ac
- amgylchiadau penodol cam-drin, e.e. llurgunio'r organau cenhedlu mewn merched, hunan-niweidio, gorfodi i briodi, salwch ffug neu wedi'i gymell, trais yn y cartref, cam-drin plentyn gan blentyn arall, camfanteisio rhywiol, a mudwyr ifanc.

Datblygu cysylltiadau gweithio da a phartneriaethau da

- bod yn rhan o wneud penderfyniadau ar y cyd trwy gynrychiolaeth ar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc leol, trwy fod yn aelod o'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu un o'i is-grwpiau;
- meithrin cysylltiadau gweithio cefnogol ac effeithiol â'r awdurdod lleol a rhwng asiantaethau partner;
- rhwydweithio ag unigolion dynodedig mewn ysgolion sy'n gyfrifol am amddiffyn plant;
- meithrin cysylltiadau â sefydliadau a mudiadau addysgol nad ydynt yn rhan o awdurdod lleol, gan gynnwys y sector annibynnol, sefydliadau AB, Gyrfa Cymru a sefydliadau hyfforddi; a
- chysylltiadau â grwpiau gwirfoddol.

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

- un asiantaeth, aml-asiantaeth a rhyng-asiantaeth; a
- chanllawiau ysgrifenedig.

Hyrwyddo amgylcheddau diogel a chadarnhaol

- recriwtio a dethol;
- cwricwlwm (ffurfiol ac anffurfiol);
- cod ymddygiad i staff;
- cyfrinachedd, cadw cofnodion, trosglwyddo cofnodion;
- cefnogi disgyblion sydd mewn perygl fel y gallant wneud y defnydd mwyaf o unrhyw gyfle addysgol; a
- materion mewn ysgolion preswyl.

Datblygu a chynllunio

- ymrwymiad corfforaethol i waith aml-asiantaeth;
- polisi awdurdod lleol, trosolwg ar weithgareddau'r awdurdod lleol;
- datblygu gwaith yr awdurdod lleol: cynnwys amddiffyn plant yn ei holl gynlluniau;
- cynlluniau gwasanaethau plant a thebyg;
- cyfrannu at waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a'i is-grwpiau;
- datblygu gweithdrefnau un-asiantaeth a chanllawiau ymarfer.

Materion penodol a allai fod â dimensiwn amddiffyn plant:

- iechyd a diogelwch, ataliaeth/ffrwyno, bwllo;
- tripiâu ysgol, cludo disgyblion, ymweliadau preswyl, ymweliadau cyfnewid rhwng ysgolion;
- cyflogi plant, profiad gwaith;
- tynnu lluniau a defnyddio lluniau o blant;
- disgyblion heb le mewn ysgol;
- cawodydd a threfniadau newid;
- rhieni a helpwyr gwirfoddol eraill;
- cymorth cyntaf a gweinyddu meddyginiaethau;

- trefniadau ar gyfer ysgolion bro a chlybiau ar ôl ysgol;
- defnyddio'r rhyngwrwyd;
- plant gyda rhieni/gofalwyr sy'n dioddef o salwch meddwl neu anabledd;
- plant gyda rhieni/gofalwyr sy'n camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau; a
- phlant mewn ysgolion preswyl y tu allan i'r awdurdod lleol.

Monitro

- lefelau cydymffurfio â gweithdrefnau a pholisïau ym mhob ysgol;
- unigolion dynodedig mewn ysgolion, ynghyd â'u cofnod hyfforddiant;
- llywodraethwr dynodedig mewn ysgolion ynghyd â'u cofnod hyfforddiant;
- cyfrannu at waith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant a grwpiau sicrhau ansawdd; cyfeirio plant i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol (niferoedd, ansawdd ac ymateb);
- lefel y gweithgareddau amddiffyn plant yn yr ysgolion a'r cysylltiadau i hyfforddiant a dderbyniwyd;
- mynychu cynadleddau achos;
- plant ar y gofrestr amddiffyn plant;
- cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, gweithdrefnau neu safonau Bwrdd Lleol Diogelu Plant;
- gweithredu argymhellion Adolygiadau o Achosion Difrifol, neu debyg; a
- defnyddio ataliaeth/ffrwyno.

Atebolrwydd

- cynrychioli'r awdurdod lleol ar lefel leol a chenedlaethol; a
- hyfforddiant personol er mwyn gallu cyflawni'r rôl.

Cyswllt â'r darparwr gwasanaethau personél

- gweithdrefnau recriwtio a dethol diogel, trefniadau fetio; a
- gweithdrefnau disgyblu a honiadau o gam-drin yn erbyn staff.

Meysydd Cyfrifoldeb Eang ar gyfer Uwch Berson Dynodedig Amddiffyn Plant

Cyfeirio

- cyfeirio achosion lle mae amheuon o gam-drin neu honiadau o gam-drin i'r asiantaethau ymchwilio perthnasol. Lle maent yn berthnasol i achosion lle amheuir camdriniaeth neu honiadau o gam-drin yn erbyn staff, dylai staff ddilyn canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yng nghylchlythyr 45/2004;
- gweithredu fel ffynhonnell cymorth, cyngor ac arbenigedd o fewn y sefydliad addysgol wrth benderfynu a ddylid cyfeirio rhywun neu beidio, drwy gael cyswllt â'r asiantaethau perthnasol;
- cael cyswllt â'r prifathro/prifathrawes neu'r pennaeth (lle nad y prifathro/prifathrawes sy'n cyflawni'r rôl hon) i'w hysbysu ynghylch unrhyw faterion a sicrhau bod rhywun o hyd ar gael i gyflawni'r rôl hon;
- cadw cofnodion ysgrifenedig manwl, cywir a diogel ar gyfeirio achosion neu bryderon; a
- chael cyswllt â'r swyddog dynodedig amddiffyn plant arweiniol yn yr awdurdod lleol.

Hyfforddiant

- gwybod sut i adnabod arwyddion o gam-drin a, lle bo hynny'n briodol, cyfeirio achos;
- bod â gwybodaeth ymarferol o sut y mae Byrddau Lleol Diogelu Plant yn gweithio, gwybod sut y cynhelir cynhadledd achos amddiffyn plant a gallu mynychu a chyfrannu at y rhain yn effeithiol pan fo angen;
- sicrhau bod pob aelod o staff ac unrhyw wirfoddolwr yn gallu cael gafael ar bolisi amddiffyn plant yr ysgol, a'u bod yn ei ddeall, yn enwedig staff newydd neu ran amser sydd efallai'n gweithio i wahanol sefydliadau addysgol;
- sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant cynefino a gloywi sy'n cynnwys amddiffyn plant a'u bod yn gallu adnabod a rhoi gwybod am unrhyw bryderon yn syth; a

- gallu cael mynediad i adnoddau a mynychu unrhyw gyrsiau hyfforddi perthnasol neu loywi ar yr adegau priodol.

Codi ymwybyddiaeth

- sicrhau bod polisi amddiffyn plant y sefydliad yn cael ei ddiweddararu a'i adolygu'n flynyddol a gweithio â'r corff llywodraethu neu'r perchennog ar hyn;
- sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gweld copïau o'r polisi amddiffyn plant fel eu bod yn effro i'r ffaith y bydd achosion efallai'n cael eu cyfeirio a rôl y sefydliad yn y broses hon, er mwyn osgoi gwrthdaro nes ymlaen; a
- lle mae plant yn gadael y sefydliad, sicrhau bod copi o'u ffeil amddiffyn plant yn cael ei roi i'r sefydliad newydd cyn gynted â phosibl, ond yn cael ei throsglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl.

Nodyn Enghreifftiol 1

Enghraifft o Bolisi Amddiffyn Plant ar Gyfer Ysgolion

Polisi Amddiffyn Plant (Enw'r Ysgol)

Rhagarweiniad

1.1 Mae (Ysgol/.....) yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen yn ein polisi:-

- a. atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion;
- b. gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion neu amheuon o gam-drin ac adrodd arnynt. Oherwydd ein cysylltiad beunyddiol â phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar unrhyw arwyddion allanol o gam-drin; a
- c. chefnogi disgyblion a allai fod wedi cael eu cam-drin.

1.2 Mae ein polisi'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol, ac i'r llywodraethwyr. Efallai mai cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon, fydd y bobl gyntaf y mae plentyn yn datgelu gwybodaeth iddynt.

Atal

2.1 Rydym yn cydnabod bod hunanwerth uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da rhwng disgyblion ac oedolyn y gallant ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly bydd yr ysgol:-

- a. yn sefydlu a chynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, a lle'r ydym yn gwrandao arnynt;

- b. yn sicrhau bod y plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y medrant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferthion;
- c. yn cynnwys, yn y cwricwlwm, weithgareddau a chyfleoedd Addysg Bersonol a Chymdeithasol i roi i'r plant y sgiliau angenrheidiol i ddiogelu eu hunain rhag cael eu cam-drin ac i wybod at bwy i droi am gymorth; ac
- d. yn cynnwys, yn y cwricwlwm, ddeunydd i helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran sgiliau gofal plant a magu plant.

Gweithdrefnau

3.1 Byddwn yn glynu at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan sydd wedi cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Diogelu Plant Lleol.

3.2 Bydd yr ysgol yn:-

- a. sicrhau bod ganddi uwch aelod o staff dynodedig sydd wedi derbyn yr hyfforddiant priodol;
- b. cydnabod rôl y person dynodedig ac yn trefnu cymorth a hyfforddiant. *Efallai y bydd ysgolion eisiau sôn am yr hyfforddiant ychwanegol sy'n cael ei gyflawni gan eu person dynodedig;*
- c. sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:-
 - enw'r person dynodedig a'i rôl;
 - bod ganddynt gyfrifoldeb fel unigolion dros gyfeirio pryderon amddiffyn plant drwy ddefnyddio'r sianelau iawn ac o fewn y terfynau amser y cytunwyd arnynt â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant; a
 - sut i weithredu ar y pryderon hynny os nad yw'r person dynodedig ar gael.
- d. sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu camdriniaeth;
- e. sicrhau bod rhieni'n deall y cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a'r staff dros amddiffyn plant drwy nodi ei hymrwymiaadau ym mhrosbectws yr ysgol;

- f. darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod yn gwybod:-
 - i. beth yw eu cyfrifoldebau personol;
 - ii. beth yw'r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt;
 - iii. bod angen bod yn effro i adnabod achosion o gam-drin; a
 - iv. sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth.
- g. hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol os:-
 - bydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn yn cael ei wahardd naill ai am dymor penodol neu'n barhaol; ac
 - os yw disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol o'r ysgol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod (neu am ddiwrnod yn dilyn penwythnos);
- h. gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol ac yn cydweithredu, fel bo angen, â'u hymholiadau i faterion amddiffyn plant, gan gynnwys mynychu'r adolygiad cychwynnol a grwpiau craidd a chynadleddau amddiffyn plant a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau;
- i. cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a pha gamau a gymerwyd), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol yn syth;
- j. sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a than glo;
- k. cadw at y gweithdrefnau a nodir yng nghylchlythyr cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- l. sicrhau y llunnir gweithdrefnau recriwtio a dewis yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cylchlythyr 34/2002 "*Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg*"; a
- m. dynodi llywodraethwr amddiffyn plant i oruchwylio polisi ac arferion amddiffyn plant yr ysgol.

Cefnogi'r Disgybl Sydd Mewn Perygl

4.1 Rydym yn cydnabod y gallai plant sydd mewn perygl, sy'n wynebu camdriniaeth neu sy'n dyst i drais, gael eu heffeithio'n drom gan hyn.

4.2 Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a sicr ym mywydau plant sydd mewn perygl. Er hynny, pan fyddant yn yr ysgol mae eu hymddygiad yn gallu bod yn herfeiddiol ac anystywallt, neu gallant fynd i'w cragen.

4.3 Bydd yr ysgol yn ceisio cefnogi'r disgybl drwy:-

- a. gynnwys pethau yn y cwricwlwm sy'n annog hunanwerth a hunan-gymhelliad (gweler adran 2 ar Atal);
- b. ethos yr ysgol sy'n:-
 - i. hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel; ac yn
 - ii. rhoi ymdeimlad o werth i ddisgyblion (gweler adran 2 ar Atal);
- c. un o amcanion polisi ymddygiad yr ysgol yw cefnogi disgyblion agored i niwed yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull cyson o weithredu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn sydd wedi tramgwyddo ond heb niweidio hunanwerth y disgybl. Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol, ond ei bod hi neu ef yn cael eu gwerthfawrogi ac nad ydynt i'w beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;
- d. cael cyswllt cyson ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r myfyriwr, fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc, y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, y Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad a'r Gwasanaeth Lles Addysg; a thrwy
- e. cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y mae unrhyw bryder yn ailgodi.

4.4 Pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn symud o'r ysgol, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bwlio

4.5 Mae ein polisi ar fwlio wedi'i nodi yn (*dogfen ar wahân/polisi ymddygiad yr ysgol*) ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

Ymyrryd yn Gorfforol

4.6 Mae ein polisi ar ymyrryd yn gorfforol wedi'i nodi yn (*dogfen ar wahân*) ac mae'n cael ei adolygu'n flynyddol gan y corff llywodraethu.

Plant gyda Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig

4.7 Rydym yn cydnabod yn ystadegol mai plant gydag anableddau ac anawsterau ymddygiad yw'r rhai sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin. Mae angen i staff yr ysgol sy'n delio â phlant gydag anableddau difrifol a lluosog, nam ar y synhwyrâu a/neu broblemau ymddygiad ac emosiynol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin.

Nodyn Enghreifftiol 2

Nodyn Enghreifftiol i Staff

Beth i'w wneud os yw plentyn yn dweud wrthyh ei fod wedi cael ei gam-drin gan rywun nad yw'n aelod o staff.

Os yw'r honiad yn erbyn aelod o staff, dylech gyfeirio at gylchlythyr cyfarwyddyd 45/2004 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Gall plentyn ymddiried mewn unrhyw aelod o staff, ac efallai na fydd bob amser yn mynd at aelod o'r staff addysgu. Dylai staff sy'n cael gwybod am honiad yn erbyn rhywun gofio:-

- mai rôl wrando sydd gennych, peidiwch â thorri ar draws y plentyn os yw'n adrodd atgofion o ddigwyddiadau pwysig. Dylech gyfyngu unrhyw gwestiynau i gadarnhau eich bod wedi deall yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud. Dylid gofyn unrhyw gwestiwn yn agored fel nad ydych yn arwain y plentyn;
- rhaid ichi adrodd yn llafar i'r **person amddiffyn plant dynodedig** yn yr ysgol ar unwaith;
- dylech wneud nodyn o'r drafodaeth, cyn gynted ag y mae hynny'n rhesymol ymarferol (ond o fewn 24 awr) i'w roi i'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol. Dylai'r nodyn, a ddylai ddefnyddio termau clir, gofnodi'r amser, y dyddiad, y lleoliad a'r bobl a oedd yn bresennol, a dylai gofnodi union atebion/ymatebion y plentyn mor agos â phosibl. Cofiwch, efallai y bydd eich nodyn o'r drafodaeth yn cael ei ddefnyddio mewn achos llys nes ymlaen;
- peidiwch ag addo y byddwch yn cadw'r mater yn hollol gyfrinachol;
- efallai bod plentyn yn disgwyl am achos mewn llys troseddol, efallai y bydd rhaid iddo roi tystiolaeth neu efallai ei fod yn disgwyl canlyniad achos gofal; a hefyd
- bydd eich cyfrifoldeb chi o ran cyfeirio pryderon yn dod i ben ar y pwynt hwn, ond efallai y bydd gennych rôl nes ymlaen o ran cefnogi neu fonitro'r plentyn, cyfrannu at asesiad neu gyda gweithredu cynlluniau amddiffyn plant.

Cyfrinachedd

Mae angen deall materion cyfrinachedd os yw plentyn yn datgelu gwybodaeth am gael ei gam-drin. Efallai na fydd plentyn yn teimlo'n hyderus i ymddiried mewn aelod o staff ond os yw'n teimlo na fydd y wybodaeth yn cael ei datgelu i neb arall. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig os yw plentyn yn cael trafferthion lles plant.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn delio â hyn yn sensitif ac yn egluro wrth y plentyn bod yn rhaid iddynt hysbysu'r bobl briodol fydd yn gallu helpu'r plentyn, ond na fyddant ond yn dweud wrth y rhai y mae angen iddynt wybod er mwyn gallu helpu. Dylent dawelu ofnau'r plentyn a dweud wrthynt na fydd pawb yn yr ysgol yn dod i wybod am eu sefyllfa. Cofiwch fod y plentyn, mae'n debyg, wedi gorfod bod yn hynod ddewr i ddatgelu'r wybodaeth a'u bod efallai'n profi emosiynau croestynnol fel teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r camdriniwr yn rhywun sy'n agos atynt) ac wedi cael eu brifo.

Cofiwch hefyd am gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Gwnewch yn siŵr mai dim ond y rhai sydd â rôl broffesiynol, e.e. y person dynodedig a'r prifathro/ prifathrawes, sydd â mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar adegau eraill, dylid eu cadw'n ddiogel dan glo ac ar wahân i brif ffeil y plentyn.

Y person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol hon yw

.....

Y swyddog amddiffyn plant arweiniol dynodedig yn yr awdurdod lleol yw

.....

rhif ffôn

Nodyn Enghreifftiol 3

Nodyn Enghreifftiol i Rieni Neu Ofalwyr

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu:-

- y bydd gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant;
- y dylai'r ysgol wneud rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'i pholisi amddiffyn plant, efallai drwy ei gynnwys ym mhrosbectws yr ysgol, a bod hyn yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn credu bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;
- y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiuedd os yw eu plentyn yn cael ei gyfeirio neu wedi cael ei gyfeirio;
- y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os cyfeirir y plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac y bydd yr ysgol yn cyfrannu at unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu ymchwiliad yr heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn; ac
- y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni/gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.

Ar 1 Medi 2006, daeth *adran 175 o Ddeddf Addysg 2002* i rym. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach i fod â threfniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn diogelu plant a bod y trefniadau hyn yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol fodloni gofynion tebyg o dan safonau a gyflwynwyd o dan *adran 157 o Ddeddf Addysg 2002*.

Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon ynghylch plentyn, byddant fel arfer yn ceisio trafod hyn â'r teulu a, lle bo hynny'n bosibl, yn gofyn am eu caniatâd i gyfeirio'r plentyn

i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ond lle na fyddai trafodaeth a chytundeb o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o ddioddef niwed sylweddol. Bydd y cyngor hwnnw'n cael ei roi gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol mewn ymgynghoriad, lle bo'n briodol, â'r heddlu.

Dylai'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol gael gwybod yn iawn gan yr asiantaethau statudol hyn pryd, sut a phwy fydd yn hysbysu'r rhieni neu'r gofalwyr y bydd eu plentyn efallai'n cael ei gyfeirio. Dylent hefyd ofyn am gyngor ynghylch a ddylid rhoi gwybod i'r plentyn am y broses neu beidio.

Fel rhiant neu ofalwr, efallai y byddwch yn teimlo'n unig ar brydiau ond fel arfer mae rhywun ar gael i siarad â nhw. Nid yw gofalu am blant bob amser yn rhwydd, ac os ydych yn ei chael hi'n anodd ymdopi efallai y bydd angen i chi ofyn am help a chymorth i amddiffyn eich plentyn.

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol:-

- gwnewch amser i siarad â'ch plentyn a gwrando arno/arni;
- dewch i adnabod ffrindiau ac arferion beunyddiol eich plentyn;
- byddwch yn sensitif i unrhyw newid yn ei ymddygiad;
- dysgwch eich plentyn i deimlo'n hyderus i wrthod gwneud unrhyw beth os nad yw'n teimlo'n iawn;
- byddwch yn ymwybodol o sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r rhynggrwyd a'i ffôn symudol, fel nad yw'n rhoi ei hun mewn perygl.

Nodyn Enghreifftiol 4

Nodyn Enghreifftiol i Ddisgyblion

Os oes rhywun yn eich brifo chi neu'ch ffrindiau, mae pobl ar gael i'ch helpu ac i stopio pobl rhag eich brifo neu wneud ichi deimlo'n ofnus.

Dylech ddweud wrth unigolyn yr ydych yn ymddiried ynddo:-

- gallwch ddweud wrth athro/athrawes, eich rhieni/gofalwyr, neiniau a theidiau neu aelodau eraill o'ch teulu a all helpu, neu gallwch ddweud wrth ffrind; a
- gadewch i bobl helpu i wneud pethau'n well drwy stopio'r unigolyn rhag eich brifo chi neu eich ffrindiau.

Y person yn yr ysgol hon sydd â chyfrifoldeb arbennig dros eich helpu chi os oes rhywun yn eich brifo chi neu eich ffrindiau yw

.....

Os nad ydych yn gallu siarad ag unrhyw un o'r rhain, gallwch siarad ag un o'r mudiadau canlynol. Bydd ganddyn nhw rywun a fydd yn fodlon gwranddo:-

Childline

Llinell gymorth am ddim 24-awr y dydd sy'n rhoi cymorth a gwasanaeth cwnsela i bobl ifanc sy'n cael eu cam-drin. Ni fydd yr alwad yn ymddangos ar eich bil ffôn.

0800 11 11

www.childline.org.uk

NSPCC

Llinell gymorth am ddim sy'n rhoi cefnogaeth a chynghor i bobl ifanc sydd mewn sefyllfaoedd anodd neu sefyllfaoedd o gamdriniaeth.

Mae'r llinellau ar agor 24 awr y dydd ac ni fydd yr alwad yn ymddangos ar eich bil ffôn.

0808 800 5000

www.nspcc.org.uk

Y Ddraig Ffynci

Mudiad sy'n cael ei redeg gan bobl ifanc o'r un oed â chi yw'r Ddraig Ffynci sy'n sicrhau bod llais plant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed yn cael ei glywed, yn enwedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

www.funkydragon.org.uk

Comisiynydd Plant Cymru

Unigolyn sy'n Codi Llais ar ran Plant - sefydliad hawliau dynol annibynnol ar gyfer plant.

0808 801 1000 Mae'r llinellau ar agor rhwng 9am a 5pm (dydd Llun i ddydd Gwener)

www.childcom.org.uk

Clic

Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Chyngor Cenedlaethol i bobl ifanc 11 i 25 oed yng Nghymru.

www.cliconline.co.uk

Y Samariaid

Cymorth a chyngor cyfrinachol yn rhad ac am ddim

08457 90 90 90

www.samaritans.org.uk

Barnardo's

Mae Barnardo's yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc agored i niwed, yn eu helpu nhw a'u teuluoedd i oresgyn problemau fel camdriniaeth, digartrefedd a thlodi.

020 8550 8822 (cyfradd genedlaethol, 8am-6pm Llun - Gwener)

www.barnardos.org.uk

BBC One Life

Mae'r wefan hon yn darparu cyngor ar hawliau plant a phobl ifanc, beth i'w wneud os ydynt yn cael eu cam-drin a sut i gael hyd i gymorth.

www.bbc.co.uk/surgery

Kidscape

Mae Kidscape yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc dan 16 oed, eu rhieni/gofalwyr a'r sawl sy'n gweithio gyda nhw i atal bwlio a cham-drin plant yn rhywiol.

08451 205 204

www.kidscape.org.uk

Get Connected

Mae Get Connected yn darparu llinell gymorth gyfrinachol am ddim sy'n rhoi cefnogaeth a gwybodaeth i bobl ifanc mewn sefyllfaoedd anodd.

0808 808 4994

www.getconnected.org

Bullying Online

Mae Bullying Online yn wefan sy'n darparu gwybodaeth a chymorth i amrywiaeth eang o rieni, disgyblion, athrawon a mudiadau ieuenctid.

www.bullying.co.uk

Wise Kids

Mae Wise Kids yn wefan sy'n darparu gwybodaeth a chymorth ar lythrennedd y rhyngrwyd, medrusrwydd a gwybodaeth am y rhyngrwyd a thechnolegau cysylltiedig.

www.wisekids.org.uk

Diogelu Plant - Mwy o Gyngor a Chanllawiau

Yn yr adrannau canlynol mae gwybodaeth a dolenni lle gallwch gael mwy o gyngor a chanllawiau am amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chadw plant yn ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r materion yn cynnwys: hyfforddiant, addysgu plant drwy'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh), gwrandio ar blant, rhai pethau a all wneud plant yn fwy agored i niwed neu bethau y dylid eu hystyried yn gamdriniaeth, a chyfrinachedd.

Camddefnyddio Ymddiriedaeth

Mae angen i'r holl staff addysg wybod bod ymddygiad amhriodol gyda phlant neu tuag atynt yn annerbyniol. Yn fwyaf arbennig, o dan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol 2003 mae'n dramgwydd i berson dros 18 oed (e.e. athro/athrawes, gweithiwr ieuenctid) gael perthynas rywiol gyda phlentyn dan 18 lle mae'r person hyn mewn safle o ymddiriedaeth yn achos y plentyn hwnnw, hyd yn oed os yw'r berthynas yn un y mae'r plentyn wedi cytuno iddi. Mae hyn yn berthnasol pan fydd y plentyn mewn addysg llawn amser a phan fydd y person hyn yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn hyd yn oed os nad yw'n ei addysgu. "Mae *"Caring for young people and the vulnerable? Guidance for preventing abuse of trust"* a gyhoeddwyd ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, Swyddfa Gogledd Iwerddon, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Adran Iechyd, a'r Adran Addysg a Chyflogaeth, yn cynnwys y prif egwyddorion ar gyfer datblygu cod ymddygiad i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed.

Cysylltiad Corfforol gyda Disgyblion/Ffrwyno

Nid yw'n realistig i awgrymu na ddylai athrawon fyth gyffwrdd â disgyblion. Yn wir, mae ganddynt hwy, a staff eraill yr ysgol, hawl i ddefnyddio grym rhesymol i reoli neu ffrwyno disgyblion mewn rhai amgylchiadau. Mae cylchlythyr cyfarwyddyd 37/98

Llywodraeth Cynulliad Cymru “*Defnyddio Grym Rhesymol i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion*” ar gael ar ffurf copi caled yn unig. Ffoniwch 029 2082 6073 gan ddyfynnu cylchlythyr 37/1998.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y dylai'r canllawiau y mae'n eu cyhoeddi ar bolisi ac arferion ymyriad corfforol cyfyngol ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn mewn lleoliadau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol rannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau.

Ym mis Mawrth 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru **Fframwaith ar gyfer Ymyriad Corfforol** ym mhob maes gwasanaeth. Disgwylir y bydd y fframwaith yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n comisiynu gwasanaethau ac y bydd darparwyr yn ei ystyried wrth baratoi polisiau a gweithdrefnau, adolygu'r trefniadau cyfredol a threfnu neu gomisiynu hyfforddiant. Nid yw'r Fframwaith yn cynghori ynghylch y camau unigol sy'n ofynnol mewn amgylchiadau penodol neu leoliadau gwasanaeth penodol nac ychwaith yn awgrymu dulliau ffrwyno penodol.

Mae'r canllawiau presennol yn benodol ar ymyriad corfforol mewn lleoliadau addysg yn cael eu hadolygu i ystyried y fframwaith newydd.

Addysgu Plant am Faterion fel rhan o Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc yn deall pan fydd ymddygiad rhywun tuag atynt yn amhriodol a sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel. Mae'r fframwaith ar gyfer ABCh yn gyfle i blant a phobl ifanc ddysgu sut i gadw'n ddiogel; a gwybod i bwy y dylid gofyn am help os bydd bygythiad i'w diogelwch. Fel rhan o ddatblygu ffordd iach, fwy diogel o fyw, dylai disgyblion gael eu dysgu, er enghraifft:-

- i adnabod a rheoli risgiau mewn gwahanol sefyllfaoedd a phenderfynu sut i ymddwyn yn gyfrifol;
- barnu pa fath o gyswllt corfforol sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol;

- adnabod pan fydd pwysau gan eraill (gan gynnwys pobl y maent yn eu hadnabod) yn bygwth eu diogelwch a'u lles personol a datblygu dulliau effeithiol o ymwrthod â'r pwysau hynny; gan gynnwys gwybod pryd a lle i gael help; a
- defnyddio technegau grymuso i ymwrthod â phwysau negyddol.

Gall fod yn anodd trafod materion fel trais a cham-drin domestig yn agored yn yr ystafell ddosbarth. Ond, gall trafodaethau am ddiogelwch personol a chadw'n ddiogel ategu'r neges bod unrhyw fath o drais yn annerbyniol; gadewch i blant a phobl ifanc wybod ei bod yn iawn iddynt siarad am eu problemau eu hunain; a dangos iddynt lle a sut i gael help. Gall codi'r materion hyn arwain y plant i grybwyll problemau a phryderon personol ac mae angen i'r staff sy'n rhoi gwersi ar y pynciau hyn fod yn barod am hynny.

Mae dolenni i ragor o wybodaeth am adnoddau ystafell ddosbarth Addysg Bersonol a Chymdeithasol a ffynonellau cymorth ar gael trwy'r dolenni canlynol:-

Cynlluniau Ysgolion iach - Rhwydweithiau Cymru -

"Hyrwyddo Diogelwch Personol mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol"

"Band Eang - Yr Iaith Newydd mewn Addysg"

Ymgynghoriad Statudol ar gynigion Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer plant 7-19 oed

Canolfan Camfanteisio ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein.

Plant sy'n Diflannu o Fyd Addysg

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cael addysg, mae ganddynt gyfle i gyflawni eu potensial ac maent hefyd mewn amgylchedd sy'n galluogi asiantaethau lleol i ddiogelu a hyrwyddo'u lles. Os bydd plentyn yn diflannu o fyd addysg gall fod mewn perygl o niwed sylweddol.

Mae sawl rheswm pam fod plant yn diflannu o fyd addysg. Gall y rheini gynnwys:-

- methu â dechrau'r ddarpariaeth briodol ac felly heb gychwyn yn y system o gwbl;

- peidio â mynychu, oherwydd gwaharddiad (e.e. gwaharddiadau answyddogol anghyfreithlon) neu ymneilltuo;
- methu â throsglwyddo rhwng darparwyr neu rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7 neu os disgwylir fel rhai sy'n codi'n 5 oed ymhlith y rhai a dderbynnir i ysgol am y tro cyntaf; neu
- mynd ar wyliau estynedig neu beidio â dychwelyd o wyliau estynedig yn unol â'r disgwyl.

Yn achos triwantiaeth cyson dylai'r ysgolion fod yn gweithio gyda'u Swyddog Lles Addysg eisoes i geisio ailennyn diddordeb y disgybl yn y system ysgol. Hefyd, bydd ysgol yn adnabod y disgybl dan sylw ac yn gwybod a yw'r ymddygiad yn beth arferol. Dylai fod gan ysgolion systemau ar waith eisoes i gysylltu â rhieni neu ofalwyr y tro cyntaf y bydd disgybl yn absennol o'r ysgol. Os na fydd plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn unol â'r disgwyl dylai'r ysgol eisoes fod yn ystyried beth a wyddant am y person ifanc a hanes ei deulu. Os oes unrhyw bryderon am ddiogelwch y plentyn, dylai'r pryderon hyn gael eu cyfeirio'n ddiymdroi at yr awdurdodau statudol i'w hystyried.

Gallai eu hamgylchiadau personol neu amgylchiadau eu teuluoedd gyfrannu at y broses ymneilltuo a'r methiant i bontio.

Mae rhai grwpiau o blant agored i niwed yn fwy tebygol nag eraill o ddiflannu o fyd addysg:-

- plant a phobl ifanc nad ydynt bob amser yn ymddangos ar y cofnodion arferol e.e. teithwyr;
- plant a phobl ifanc sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol;
- plant a phobl ifanc sy'n chwarae triwant o'r ysgol ar ôl cofrestru;
- plant sy'n derbyn gofal;
- plant a phobl ifanc nad ydynt yn cael eu haddysgu, am wahanol resymau, yn system yr ysgol wladol;
- plant a phobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi lloches i fenywod;
- plant teuluoedd digartref sydd efallai'n byw mewn llety dros dro;
- plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol;
- plant a phobl ifanc sydd wedi dianc;

- plant â phroblemau meddygol neu emosiynol hirdymor;
- gofalmwr ifanc;
- rhieni ifanc a menywod ifanc beichiog; a
- plant mudol, boed mewn teuluoedd sy'n ceisio lloches neu fudwyr economaidd.

Mae cyfrifoldeb ar bob ymarferydd sy'n gweithio gyda phlant i roi gwybod i'r awdurdod lleol os yw'n gwybod am blentyn nad yw'n cael addysg neu os yw'n amau hynny.

Argymhellir yn gryf bod AAllau yn rhoi trefniadau ar waith i fonitro lleoliad plentyn sydd mewn perygl o ddiflannu o fyd addysg a chofnodi eu bod wedi cwblhau'r gweithdrefnau hyn.

Gellir cael canllawiau atodol ynghylch hyn ym Mhennod 5 o gylchlythyr 18/2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru *"Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin"*.

Gwrando ar Blant

Mae profiad, ac ymgynghori â phlant, yn dangos y byddant yn siarad am eu pryderon a'u problemau gyda phobl y maent yn teimlo y gallant ymddiried ynddynt ac y maent yn teimlo'n gyfforddus gyda hwy. Nid athro/athrawes fydd y person hwnnw o reidrwydd. Felly, mae'n hanfodol bod yr holl staff neu wirfoddolwyr mewn ysgol neu sefydliad yn gwybod sut i ymateb yn sensitif i bryderon plentyn, â phwy i gysylltu am gyngor amdanynt, a'r pwysigrwydd o beidio â gwarantu cyfrinachedd llwyr.

Mae plant hefyd am wybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif, felly dylai'r holl sefydliadau addysg ddangos i blant eu bod yn rhoi amgylchedd diogel iddynt lle mae'n iawn iddynt siarad. Trwy arddangos gwybodaeth ddefnyddiol am bethau fel llinellau cymorth cenedlaethol i blant (Comisiynydd Plant, Childline, NSPCC) a chynlluniau cefnogaeth gan gyfoedion ar gyfer plant a phobl ifanc mewn mannau hawdd i'w gweld (e.e. ar galendrau blwyddyn y disgyblion) gellir eu hannog i rannu pryderon a helpu i roi

sicrwydd iddynt. Ceir nodyn enghreifftiol drafft ar gyfer disgyblion yn **Atodiad D**.

Dylai unrhyw aelod o staff neu wirfoddolwr y bydd plentyn yn cysylltu ag ef neu hi am sgwrs wrando'n gadarnhaol arno a thawelu meddwl y plentyn. Dylent gofnodi'r drafodaeth gyda'r disgybl cyn gynted â phosibl a gweithredu yn unol â gweithdrefnau amddiffyn plant y sefydliad.

Mae'r dystiolaeth yn y DU am hyd a lled y gamdriniaeth ymhlith plant anabl yn awgrymu y gallai rhai fod yn arbennig o agored i gamdriniaeth, er enghraifft y rhai sy'n cael anhawster i gyfathrebu. Mae'r cynorthwyr cymorth dysgu sy'n gweithio gyda phlant ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau yn gweithio'n agos gyda hwy a gallant ddod ar draws arwyddion o gamdriniaeth bosibl. Er bod angen gofal ychwanegol i sicrhau bod yr arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod yn cael eu dehongli'n gywir, dylai unrhyw amheuan gael eu cofnodi yn yr un ffordd yn union ag ar gyfer plant eraill.

Gallai'r ffordd y mae aelod o staff yn siarad â phlentyn sy'n datgelu camdriniaeth gael effaith ar y dystiolaeth a gynigir os bydd achos cyfreithiol, ac mae'n bwysig nad yw'r staff yn dod i gasgliadau heb dystiolaeth, gofyn cwestiynau sy'n arwain y plentyn, neu'n rhoi geiriau yn ei geg. Os bydd plentyn yn datgelu camdriniaeth wrth aelod o staff dylai ef/hi gadw cofnod o'r sgwrs cyn gynted â phosibl, gan wahaniaethu'n glir rhwng ffaith, arsylwadau, honiadau a barn a nodi unrhyw gamau a gymerwyd mewn achosion o gamdriniaeth bosibl a llofnodi a dyddio'r nodyn.

Rhaid i staff sylweddoli hefyd:-

- nad cyfrifoldeb athrawon na staff eraill neu wirfoddolwyr mewn ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach yw ymchwilio i achosion honedig o gamdriniaeth;
- ni allant addo cyfrinachedd llwyr i blentyn - rhaid iddynt yn hytrach esbonio y gallai fod angen iddynt roi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol eraill i helpu i gadw'r plentyn neu blant eraill yn ddiogel.

Cyfrinachedd

Mae dyletswydd ar lawer o weithwyr proffesiynol i gadw cyfrinachedd. Mae hyn yn bwysig i gynnal hyder a chyfranogiad mewn gwasanaethau a thrwy hynny helpu i ddiogelu iechyd a lles plant. Ond fel y dengys y canllawiau perthnasol, nid yw'r ddyletswydd i gadw cyfrinachedd yn un absoliwt a gellir ei thorri lle byddai hynny er lles gorau'r plentyn ac er lles y cyhoedd yn gyffredinol. Os bydd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod angen diogelu'r plentyn neu blant eraill rhag perygl o niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd. Pan fydd gweithwyr proffesiynol o'r farn bod angen rhannu gwybodaeth gyfrinachol gyda'r gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant neu gyda'r heddlu:-

- dylent wneud eu gorau i gefnogi'r plentyn, os mai'r plentyn yw ffynhonnell y wybodaeth, i gytuno i ddatgelu gwybodaeth o fewn cyfnod penodol o amser;
- yn y lle cyntaf gallent drafod yr achos yn ddiennw gydag eraill, fel cydweithwyr sydd â chymhwysedd addas ym maes amddiffyn plant neu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol plant;
- dylid rhoi gwybod i'r plentyn, oni bai y gallai hynny beryglu ei ddiogelwch yn ddifrifol; a
- dylid cadw cofnod priodol am unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth neu beidio.

Efallai y bydd angen i'r penderfyniadau yn y maes hwn gael eu gwneud gan bobl sydd â chymhwysedd addas mewn gwaith amddiffyn plant neu gyda chynghor y bobl hynny, fel gweithwyr proffesiynol penodol neu ddynodedig.

Egwyddorion sy'n sail i waith diogelu a hybu lles plant

Wrth gymryd rhan mewn achosion unigol, dylid dilyn yr egwyddorion canlynol wrth weithredu'r canllawiau. Ni fyddant yn berthnasol i'r un graddau bob tro, yn dibynnu ar swyddogaethau a lefel cyfranogiad y sefydliad a'r ymarferydd unigol dan sylw. Dylai gwaith gyda phlant a theuluoedd fod:-

- yn canolbwyntio ar y plentyn;
- wedi'i wreiddio yn natblygiad plant;
- yn helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer plant a gwella'u lles;
- yn holistaidd o ran ymagwedd;
- yn sicrhau cyfle cyfartal;
- yn cynnwys plant a theuluoedd;
- yn adeiladu ar gryfderau yn ogystal â chlustnodi anawsterau a'u datrys;
- ag agwedd aml-asiantaeth/rhyngasiantaethol;
- yn broses barhaus;
- wedi'i dyfeisio fel bod y gwasanaethau angenrheidiol yn cael eu henwi ac i fonitro'r effaith y mae darpariaethau'r gwasanaethau yn eu cael ar ddatblygiad y plentyn; ac
- yn seiliedig ar dystiolaeth.

Canolbwyntio ar y plentyn

Digwyddodd rhai o fethiannau gwaethaf y system pan oedd gweithwyr proffesiynol wedi colli golwg ar y plentyn ac wedi canolbwyntio yn lle hynny ar eu perthynas â'r oedolion.

Dylai'r ymarferydd weld y plentyn bob amser a dylai hoelio ei sylw arno yn ei holl waith gyda'r plentyn a'i deulu. Dylid gwrando ar lais y plentyn a dylid talu sylw i'w agwedd a'i safbwyntiau.

Wedi'i wreiddio yn natblygiad plant

Dylai gwaith y rhai sy'n ymwneud â phlant fod yn seiliedig ar agwedd ddatblygiadol sy'n cydnabod bod plentyn, wrth iddo dyfu, yn parhau i ddatblygu ei sgiliau a'i alluoedd. Mae pob cyfnod

o blentyndod, drwy'r blynyddoedd canol hyd at y glasoed yn gosod y sylfaen ar gyfer datblygiad mwy cymhleth. Dylai cynlluniau ac ymyriadau i ddiogelu a hybu lles y plentyn fod yn seiliedig ar asesiad clir o hynt datblygiadol y plentyn a'r anawsterau y gall fod yn eu hwynebu. Dylai unrhyw weithredu a gynlluniwyd fod yn amserol ac yn briodol i oed y plentyn a'i gyfnod datblygu.

Canlyniadau ar gyfer plant

Wrth weithio'n uniongyrchol gyda phlentyn, dylai unrhyw gynllun a ddatblygwyd ar gyfer y plentyn a'i deulu neu ei ofalwr fod yn seiliedig ar asesiad o anghenion datblygiadol y plentyn a gallu'r rhieni neu ofalwyr i ymateb i'r anghenion hyn o fewn cyd destun eu cymuned. Dylai'r cynllun hwn bennu'r canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer pob plentyn ac yn y cyfarfod adolygu dylid cofnodi'r canlyniadau gwirioneddol a gafwyd.

Diben pob ymyriad fydd sicrhau'r canlyniad gorau posibl ar gyfer pob plentyn gan gydnabod bod pob un ohonynt yn unigryw. Dylai'r canlyniadau hyn gyfrannu at y canlyniadau allweddol a bennwyd ar gyfer pob plentyn yn Neddf Plant 2004.

Holistaidd o ran agwedd

Mae bod ag ymagwedd holistaidd yn golygu deall plentyn yng nghyd-destun ei deulu (rhieni neu ofalwyr a'r teulu ehangach) a'r lleoliad addysgol, cymunedol a diwylliannol y megir y plentyn ynddo. Yn ystod asesiad mae angen edrych yn drylwyr ar y berthynas rhwng anghenion datblygiad plant, gallu'r rhieni neu'r gofalwyr i ymateb yn briodol i'r anghenion hyn ac effaith y teulu ehangach a ffactorau amgylcheddol ar blant ac ar y gallu i fagu plant.

Y prif nod yw deall anghenion datblygiadol y plentyn o fewn cyd-destun y teulu a darparu'r gwasanaethau priodol sy'n ymateb i'r anghenion hynny. Bydd y dadansoddiad o sefyllfa'r plentyn yn cyfrannu at y cynllunio a'r gweithredu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y plentyn a bydd yn cyfrannu at yr adolygiad ynghylch pa mor effeithiol oedd y camau a gymerwyd a'r gwasanaethau a ddarparwyd. Bydd cyd-destun y plentyn hyd yn oed yn fwy cymhleth pan fyddant yn byw oddi cartref ac yn derbyn gofal gan oedolion sydd heb gyfrifoldeb rhieni drostynt.

Sicrhau cyfle cyfartal

Mae cyfle cyfartal yn golygu bod hawl gan bob plentyn i gael cyfle i ddatblygu yn y modd gorau posibl ni waeth beth yw ei ryw, ei allu, ei gefndir ethnig, ei amgylchiadau neu ei oed. Gall rhai plant agored i niwed fod dan anfantais fawr o ran cael cyfleoedd pwysig a bydd angen rhoi sylw penodol i'w hiechyd a'u hanghenion addysgol er mwyn sicrhau'r lles gorau posibl iddynt yn ogystal â'r canlyniadau hirdymor gorau pan fyddant yn oedolion ifanc.

Gweithio gyda phlant a theuluoedd

Wrth ganfod beth sy'n digwydd i blentyn mae'n bwysig gwrandao arno a datblygu dealltwriaeth o'i ddymuniadau a'i deimladau. Mae'n bwysig iawn datblygu perthynas waith gydweithredol fel bod rhieni neu ofalwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu, eu bod yn cael pob gwybodaeth berthnasol, a'u bod yn credu bod staff yr asiantaeth yn agored ac yn onest gyda hwy. Byddant hwythau yn eu tro yn ymddiried digon yn y staff i roi gwybodaeth bwysig iddynt am eu plentyn, eu hunain a'u hamgylchiadau. Dylid cael caniatâd plant, pobl ifanc a'u rhieni neu ofalwyr wrth rannu gwybodaeth oni bai y byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed. Hefyd, dylid gwneud penderfyniadau gyda'u cytundeb hwy, lle bynnag y bo modd, oni bai y byddai gwneud hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed.

Adeiladu ar gryfderau yn ogystal â nodi anawsterau

Mae'n bwysig nodi cryfderau ac anawsterau'r plentyn neu ei deulu a chyd-destun eu bywydau, ac mae hefyd yn bwysig ystyried sut mae'r ffactorau hyn yn cael effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn. Gwelwyd yn rhy aml o lawer bod dull diffygiol o weithio gyda theuluoedd yn gyffredin, a'i fod yn anwybyddu meysydd hollbwysig o lwyddiant ac effeithlonrwydd yn y teulu y gellir seilio'r ymyriadau arnynt. Mae gweithio gyda chryfderau plentyn neu deulu yn rhan bwysig o gynllun i ddatrys anawsterau.

Gweithio gydag asiantaethau eraill

Mae lluo o asiantaethau a rhaglenni gwahanol yn y gymuned yn ymwneud â phlant a'u datblygiad o'u genedigaeth, yn enwedig o ran eu hiechyd a'u haddysg. Mae gwaith aml-asiantaeth a rhyngasiantaethol i ddiogelu a hybu lles plant yn dechrau cyn gynted ag y bydd pryderon am les plentyn, nid dim ond pan fydd cwestiynau am niwed posibl.

Proses barhaus yw asesu

Prosesau parhaus a rhyngweithiol, nid un digwyddiad penodol, yw deall beth sy'n digwydd i blentyn agored i niwed yng nghydestun ei deulu a'r gymuned leol a chymryd camau priodol. Dylai'r camau a'r gwasanaethau a ddarperir ymateb i anghenion penodol y plentyn a'r teulu a dylid eu monitro a'u hadolygu lle bo angen. Nid oes angen aros i'r broses asesu gael ei chwblhau. Dylai anghenion brys ac ymarferol gael eu trafod ar y cyd â'r rhai mwy cymhleth a'r rhai ar gyfer y tymor hirach.

Seiliedig ar wybodaeth

I weithio'n effeithiol gyda phlant a theuluoedd mae angen bod â barn broffesiynol gadarn sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gyflawn ac ar wybodaeth a phrofiad yr ymarferydd.


Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol

Ym Mhennod 9 o ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*" mae canllawiau ychwanegol ar gyfer ymarferwyr ar nifer o ystyriaethau arbennig sy'n berthnasol i ddiogelu plant mewn ystod o amgylchiadau penodol gan gynnwys:-


- plant sy'n byw oddi cartref;
- hil a hiliaeth;
- bwlio;
- gofal maeth a maethu preifat;
- camdriniaeth wedi'i threfnu neu gamdriniaeth gan fwy nag un person;

- plant mewn ysbytai;
- plant yn y ddalfa;
- plant anabl;
- camdriniaeth gan blant a phobl ifanc;
- diffyg rheolaeth gan rieni;
- camdriniaeth yn y cartref;
- camfanteisio'n rhywiol ar blant;
- lluniau o gam-drin plant, y Rhynggrwyd a'r technolegau gwybodaeth;
- salwch ffug neu salwch sydd wedi cael ei gymell yn fwriadol;
- plant rhieni sy'n camddefnyddio sylweddau;
- camdriniaeth sy'n gysylltiedig â chred mewn 'meddiant ysbrydol' neu 'ddewiniaeth' neu sy'n gysylltiedig mewn ffyrdd eraill â chred ysbrydol neu grefyddol;
- plant a theuluoedd sy'n diflannu;
- plant sy'n derbyn gofal sy'n dianc a'r rhai sy'n diflannu o'u lleoliad gofal;
- plant sy'n diflannu o fyd addysg;
- plant sy'n byw mewn llety dros dro;
- plant mudol;
- plant sy'n dioddef yn y fasnach mewn pobl;
- plant ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches;
- anffurfio organau rhywiol menywod; a
- phriodasau dan orfodaeth.

Siart Llif 1 - Cyfeirio




Siart Llif 2 - Beth sy'n digwydd ar ôl Asesiad Cychwynnol?




Nodyn Ymarfer: Dylai'r teulu, yr atgyfeiriwr gwreiddiol, a'r gweithwyr proffesiynol eraill a'r gwasanaethau sy'n rhan o'r asesiad, cyn belled â phosibl, gael gwybod pa gamau sydd wedi'u cymryd ac a gaiff eu cymryd, yn gyson â pharchu cyfrinachedd y plentyn a'r teulu o dan sylw, a pheidio â pheryglu camau pellach mewn perthynas â phryderon ynghylch niwed (a allai gynnwys ymchwiliadau gan yr heddlu). Dylid cadarnhau'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig i'r asiantaethau a'r teulu.


Siart Llif 3 - Camau Brys i Ddiogelu Plant



Siart Llif 4 - Beth sy'n digwydd ar ôl trafod y Strategaeth?



Siart Llif 5 - Beth sy'n digwydd ar ôl y Gynhadledd Amddiffyn Plant, gan gynnwys y Broses Adolygu?



Rhannu Gwybodaeth

Mae'r canllawiau hyn yn gyson â'r canllawiau i'r Byrddau Lleol Diogelu Plant sydd yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad **"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"**.

Mae'r canllawiau anstatudol hyn wedi'u bwriadu ar gyfer pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn y gwasanaethau hyn, boed yn weithwyr cyflogedig neu'n wirfoddolwyr, sy'n gweithio yn y sectorau preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Maent yn cydnabod fod y rhan fwyaf o benderfyniadau i rannu gwybodaeth yn gofyn am farn broffesiynol, ac yn ceisio darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae ar ymarferwyr eu hangen i wneud penderfyniadau. Maent yn cwmpasu'r prif resymau pam y byddai ymarferwyr yn dymuno neu pam y mae angen iddynt rannu gwybodaeth:-

- helpu plant a phobl ifanc i gyflawni'r canlyniadau allweddol rydym am eu sicrhau i bawb: bod yn iach, cadw'n ddiogel, mwynhau a chyflawni, gwneud cyfraniad cadarnhaol, a chyflawni lles economaidd;
- diogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc trwy eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin, atal niwed i'w hiechyd neu ddatblygiad, neu sicrhau eu bod yn tyfu mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol; ac
- atal plant a phobl ifanc rhag troseddu.

Mae'r canllawiau hefyd yn:-

- nodi prif egwyddorion rhannu gwybodaeth;
- amlygu'r materion anodd y mae ymarferwyr yn eu hwynebu o bryd i'w gilydd wrth rannu gwybodaeth;
- nodi canllawiau craidd materion rhannu gwybodaeth i'r holl ymarferwyr;
- crynhoi'r pethau allweddol y dylai ymarferwyr wybod amdanynt mewn perthynas â Dyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gwlad, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data ac yn;
- darparu gwybodaeth bellach am y ddeddfwriaeth sy'n rhoi sail gyfreithiol i gasglu, defnyddio a rhannu gwybodaeth.

Egwyddorion allweddol rhannu gwybodaeth

Er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn mae angen i ymarferwyr ddeall egwyddorion cyffredinol rhannu gwybodaeth am blentyn, person ifanc neu eu rhiant/gofalwyr.

- diogelwch a lles plentyn neu berson ifanc yw'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth amdanynt;
- mae'n rhaid cael sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth a gwir bwrpas dros wneud hynny;
- wrth ymdrin â gwybodaeth gyfrinachol bydd angen i chi fod yn fodlon bod:-
 - a. rhwymedigaeth statudol i ddatgelu'r wybodaeth;
 - b. caniatâd diamwys neu ddealliedig gan y personau dan sylw; neu
 - c. ei bod hi o fudd cyhoeddus tra phwysig i ddatgelu'r wybodaeth.
- dylech ystyried arwyddocâd, neu arwyddocâd posibl y wybodaeth sydd gennych. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu fod yn berthnasol i'r diben rhannu a dim ond gyda'r ymarferwyr neu'r asiantaethau sydd 'angen gwybod' y dylid rhannu'r wybodaeth;
- dylech fod yn agored a gonest gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd am y rhesymau dros rannu gwybodaeth a pham mae angen cymryd rhai camau gweithredu, oni bai bod hynny'n effeithio'n andwyol ar ddiben rhannu'r wybodaeth;
- dylech gael caniatâd i rannu gwybodaeth oni bai ei bod hi'n beryglus neu'n amhosibl gwneud hynny, neu y byddai'n tansellio'r gwaith o atal neu ganfod trosedd; a
- dylai'r wybodaeth fod yn gywir, wedi'i chadw'n ddiogel ond nid am gyfnod mwy nag sydd raid.

Y ffordd orau o sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn cael ei chyflawni'n briodol yw gweithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus rhwng yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol cysylltiedig, a chymryd cyngor cyfreithiol mewn achosion unigol pan fo angen. Pan fo gwybodaeth yn cael ei rhannu, gyda neu heb ganiatâd, dylid cofnodi'r wybodaeth

a rannwyd, pryd, gyda phwy ac at ba ddiben. Yn yr un modd, dylid cofnodi penderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth.

Materion anodd sy'n wynebu ymarferwyr

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr gwasanaethau plant yn deall bod ganddynt ddyletswydd i rannu gwybodaeth pan fo ganddynt hwy neu bobl eraill dystiolaeth bod plentyn yn cael, neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso (h.y. amddiffyn plant). Y sefyllfaoedd mwyaf anodd yw:-

- pan fo'r dystiolaeth yn brin neu'n aneglur, ond mae gennych chi neu eraill bryder yng nghefn eich meddwl fod y plentyn mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso; neu
- pan nad yw'r pryder yn ymwneud â cham-drin neu esgeuluso, ond am agweddau eraill ar les plentyn, er enghraifft, mater iechyd, eu presenoldeb a'u perfformiad yn yr ysgol, neu duedd i droseddu.

Cydnabyddir yn gynyddol y gallai methu â rhannu gwybodaeth wrth ymarfer, hyd yn oed am bryder yng nghefn eich meddwl, gael canlyniadau difrifol i les plentyn neu berson ifanc, neu eraill. Yn aml, nid oes darlun cliriach yn datblygu nes bod gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i deall, a allai gadarnhau neu dawelu pryderon am ddiogelwch a lles plentyn neu berson ifanc.

Mae'r gyfraith yn cael ei nodi'n aml fel rhwystr i rannu gwybodaeth yn y sefyllfaoedd hyn. Efallai eich bod chi'n ansicr am y materion cyfreithiol neu foesegol sy'n gysylltiedig â rhannu gwybodaeth, yn enwedig gydag asiantaethau eraill. Efallai eich bod chi'n pryderu am rannu gwybodaeth, er enghraifft:-

- rydych chi'n pryderu eich bod chi wedi camfarnu'r sefyllfa ac y byddwch chi'n cael eich beio, eich disgyblu neu eich erlyn hyd yn oed;
- dydych chi ddim yn siŵr sut i ddweud wrth riant eich bod chi'n pryderu am y modd y maent yn gofalu am eu plentyn;
- rydych chi'n pryderu y gallech chi niweidio eich perthynas gyda'ch claf neu'ch cleient wrth fynegi eich pryderon;

- rydych chi'n pryderu na fydd ymarferwyr eraill yn trin y plentyn a'r teulu gyda chydymdeimlad os ydych chi'n lleisio'ch pryderon;
- rydych chi'n pryderu na fydd ymarferwyr eraill yn trin y wybodaeth yn gyfrinachol;
- rydych chi'n pryderu y bydd ymarferwyr eraill yn gwneud pethau'n waeth ac yn chwalu teulu o bosibl;
- rydych chi'n amau bod yna drais yn y teulu ac y gallech chi wneud pethau'n waeth i'r plentyn, person ifanc neu bartner yn y teulu; a
- rydych chi'n ofni y gallai rhywun ymosod arnoch chi'n llafar neu'n gorfforol.

Mae'r rhain yn bryderon gwirioneddol a chyffredin iawn sy'n rhan o brofiad y rhan fwyaf o ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ac nid yw'n hawdd delio â nhw.

Heb wybodaeth berthnasol ni all ymarferwyr wneud penderfyniadau cadarn, asesu anghenion na phenderfynu ar wasanaethau priodol i ddiwallu anghenion. Mae diffyg gwybodaeth yn cynyddu'r perygl o blant sy'n 'llithro drwy'r rhwyd'. Ni ddylech beidio â rhannu gwybodaeth oherwydd bod yna rwystrau cyfreithiol na thybio mai peidio â rhannu gwybodaeth yw'r llwybr mwyaf diogel.

Yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd bydd angen i chi wneud penderfyniad proffesiynol i ofyn am ganiatâd i rannu gwybodaeth ai peidio. Mae angen i chi ddeall y gyfraith yn fras i wneud y penderfyniad hwnnw. Dylech hefyd fod yn ymwybodol o unrhyw god ymddygiad neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'ch proffesiwn neu asiantaeth. Mae'r gyfraith a'r codau ymddygiad hyn bron bob amser yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyda chaniatâd. Wrth benderfynu a ddylech rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd, mae angen i chi benderfynu a yw budd cyhoeddus rhannu'r wybodaeth, er enghraifft i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn neu berson ifanc neu i atal neu ganfod trosedd, yn bwysicach na budd cyhoeddus cynnal cyfrinachedd.

Lle bo'n bosibl, dylech egluro'r mater, ceisio sicrhau cytundeb ac os ydych chi'n penderfynu'n groes i ddymuniadau rhiant, person ifanc neu blentyn, dylech egluro'r rhesymau dros wneud hynny. Efallai na fydd hyn yn briodol bob amser, er enghraifft mewn

rhai achosion lle bydd angen rhannu gwybodaeth gyda'r heddlu i atal neu i ymchwilio i achosion posibl o drosedd. Cofnodwch eich penderfyniad ar y cofnodion priodol. Mae Pennod 7 ac 8 "*Diogelu Plant: Gweithio Gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Addysg 2004*" yn cynnwys canllawiau arferion da ar weithio gyda phlant, pobl ifanc a rhieni.

Efallai y bydd yn werth i chi drafod pethau gyda'ch rheolwr neu gydweithiwr rydych chi'n ymddiried ynddo, os ydynt yn brofiadol yn y materion hyn, neu os ydych chi'n gweithio yn y GIG neu'r Awdurdod Lleol trafod gyda'r Gwarcheidwad Caldicott. Os yw'r pryder yn ymwneud â cham-drin neu esgeulustod, mae gan bob sefydliad berson penodol sy'n cyflawni swyddogaeth arweiniol ar gyfer amddiffyn plant, felly gallai trafod â'r person hwn fod yn ddefnyddiol hefyd.

Beth yw'r cyfyngiadau cyfreithiol?

Gall y penderfyniad i ddatgelu gwybodaeth ai peidio godi mewn sawl cyd-destun. Efallai bod gennych bryder yng nghefn eich meddwl am blentyn ac y byddai rhannu'r wybodaeth ag asiantaeth arall yn fodd o dawelu neu gadarnhau'r pryder hwnnw. Efallai y gofynnir i chi am wybodaeth mewn cysylltiad ag asesiad o anghenion plentyn o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 neu ymchwiliad o dan adran 47 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad ag achos llys. Ym mhob achos, y prif gyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth yw:

- dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad;
- Deddf Hawliau Dynol 1998;
- Deddf Diogelu Data 1998.

Mae'n rhaid ystyried pob cyfyngiad ar wahân. Gall darpariaethau statudol eraill fod yn berthnasol hefyd. Ond yn gyffredinol, ni fydd y gyfraith yn eich atal rhag rhannu gwybodaeth ag ymarferwyr eraill os:

- yw'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio yn rhoi caniatâd;
- os yw budd cyhoeddus diogelu lles y plentyn yn fwy na'r angen i gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol; neu
- os oes angen datgelu'r wybodaeth o dan orchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall.

Dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad

Mae'r amgylchiadau lle mae dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad yn codi wedi datblygu dros amser mewn cyfraith achos. Mae'r ddyletswydd yn codi pan fo person yn rhannu gwybodaeth gyda pherson arall dan amgylchiadau lle mae hi'n rhesymol disgwyl y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

Mae'r llysoedd wedi nodi bod dyletswydd cyfrinachedd yn bodoli pan fo:

- contract yn darparu ar gyfer cadw gwybodaeth yn gyfrinachol;
- perthynas arbennig rhwng partïon fel claf a meddyg, cyfreithiwr a chleient, athro a disgybl;
- asiantaeth neu adran o'r llywodraeth fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn casglu a chadw gwybodaeth bersonol i gyflawni ei gwaith.

Nid yw'r ddyletswydd yn absoliwt. Gellir cyfiawnhau datgelu:

- pan nad yw'r wybodaeth yn gyfrinachol ei natur;
- pan fo'r person sy'n destun y ddyletswydd wedi rhoi caniatâd diamwys neu ddealliedig i ddatgelu'r wybodaeth;
- pan fo hynny er budd cyhoeddus tra phwysig;
- pan fo angen datgelu'r wybodaeth yn ôl gorchymyn llys neu rwymedigaeth gyfreithiol arall.

A yw'r wybodaeth yn gyfrinachol?

Mae rhai mathau o wybodaeth, fel cofnodion meddygol a chyfathrebu rhwng meddyg a chlaf, yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n destun dyletswydd cyfrinachedd. Efallai na fydd hynny'n wir am fathau eraill o wybodaeth, yn enwedig os yw'r wybodaeth yn ddibwys neu ar gael yn hawdd o ffynonellau eraill neu os na fyddai cadw'r wybodaeth yn gyfrinachol o fudd i'r person y mae'r wybodaeth amdano. Er enghraifft, gallai gweithiwr cymdeithasol sy'n poeni lle'r oedd y plentyn ffonio'r ysgol i weld a oedd y plentyn wedi mynychu y diwrnod hwnnw.

Cynnal cyfrinachedd

Fel rheol gyffredinol dylech drin yr holl wybodaeth bersonol y cewch chi yn eich gwaith o weithio gyda phlant a theuluoedd fel gwybodaeth gyfrinachol a chymryd gofal arbennig wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif.

Datgelu gyda caniatâd

Ni fyddwch wedi torri cyfrinachedd os yw'r person sy'n destun y ddyletswydd cyfrinachedd yn rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth. Gall caniatâd fod yn ddiamwys (ar lafar neu'n ysgrifenedig) neu'n ddealliedig o'r amgylchiadau lle rhoddwyd yr wybodaeth (caniatâd dealliedig).

Caniatâd pwy sydd ei angen? Mae'r ddyletswydd cyfrinachedd yn ddyledus i'r person sydd wedi darparu gwybodaeth ar y ddealltwriaeth y bydd y wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol neu, yn achos cofnodion meddygol neu gofnodion eraill, y person y mae'r wybodaeth yn cyfeirio ato/ati.

A roddwyd caniatâd? Nid oes angen caniatâd diamwys os oes gennych chi resymau rhesymol i gredu bod y person sy'n destun y ddyletswydd yn deall ac yn derbyn bod yr wybodaeth yn mynd i gael ei datgelu. Er enghraifft, byddai person sy'n atgyfeirio cyhuddiad o gam-drin i weithiwr cymdeithasol yn disgwyl i'r wybodaeth honno gael ei rhannu ar sail yr angen i wybod gyda'r rhai sy'n gyfrifol am ddelio â'r cyhuddiad. Mae unrhyw un sy'n derbyn gwybodaeth gan wybod ei bod yn gyfrinachol hefyd yn destun dyletswydd cyfrinachedd. Pan fyddwch yn rhoi neu'n derbyn gwybodaeth a ymddiriedwyd i chi dylech sicrhau bod yna ddealltwriaeth glir o ran sut bydd yn cael ei defnyddio neu ei rhannu.

A ddylwn i ofyn am ganiatâd? Os ydych chi'n ansicr ynglŷn ag a gafwyd caniatâd i ddatgelu gwybodaeth ai peidio mae'n well cael caniatâd diamwys. Ond ni ddylech wneud hynny pe bai'n andwyol i les y plentyn. Er enghraifft, os oes angen yr wybodaeth ar frys efallai na ellir cyfiawnhau'r oedi i gael caniatâd. Gall gofyn am ganiatâd amharu ar ymchwiliad gan yr heddlu neu gynyddu'r perygl o niwed i'r plentyn.

Beth os gwrthodir caniatâd? Bydd angen i chi benderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth, gan ystyried beth sy'n cael ei ddatgelu, at ba ddiben ac i bwy.

Datgelu heb ganiatâd

Mae'r gyfraith yn cydnabod y gellir cyfiawnhau datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd neu orchymyn llys os yw hynny er lles y cyhoedd i atal niwed i eraill.

Y ffactor allweddol wrth benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth gyfrinachol yw **cymesuredd**: a yw'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i amddiffyn lles y plentyn? Ni ddylai faint o wybodaeth gyfrinachol a ddatgelir, a nifer y bobl sy'n derbyn yr wybodaeth honno, fod yn fwy nag sy'n hollol angenrheidiol i fodloni'r budd cyhoeddus i amddiffyn iechyd a lles plentyn. Po fwyaf sensitif yw'r wybodaeth, pwysicaf yn y byd yw hi bod a wnelo'r rheswm i ddatgelu â'r plentyn ac mae'n bwysicach sicrhau mai dim ond y gweithwyr proffesiynol sydd arnynt angen y wybodaeth sy'n derbyn y deunydd (ar sail yr angen i wybod).

Y Sail "Yr Angen i Wybod"

Ffactorau Perthnasol:-

- beth yw diben datgelu'r wybodaeth?
- beth yw natur yr wybodaeth i'w datgelu a faint o wybodaeth sydd?
- i bwy y datgelir yr wybodaeth (ac a yw'r derbynnydd o dan ddyletswydd i drin y deunydd yn gyfrinachol)?
- a yw'r datgeliad arfaethedig yn ymateb cymesur i'r angen i amddiffyn lles y plentyn y mae'r wybodaeth gyfrinachol yn ymwneud ag ef?

A oes yna wahaniaeth rhwng datgelu gwybodaeth o fewn eich sefydliad a datgelu gwybodaeth i sefydliad arall?

Dylai'r dull o ddatgelu gwybodaeth fod yr un peth ble bynnag mae hynny'n digwydd - yn fewnol yn y sefydliad (ee mewn ysgol, neu wasanaethau cymdeithasol) neu rhwng asiantaethau (ee o athro i weithiwr cymdeithasol).

Bydd yr angen i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i eraill yn eich sefydliad yn codi'n amlach na'r angen i ddatgelu gwybodaeth i asiantaethau eraill. Er enghraifft, bydd angen i athro drafod gwybodaeth gyfrinachol gyda'r Pennaeth Blwyddyn a Phennaeth yr Ysgol yn amlach na gyda gweithiwr cymdeithasol. Bydd disgyblion a'u rhieni yn disgwyl i drafodaethau o'r fath ddigwydd yn yr ysgol, felly bydd yna ganiatâd dealliedig fel rheol. Fel arall, (ee os ydych chi'n datgelu gwybodaeth y mae plentyn wedi gofyn i chi ei chadw'n gyfrinachol) bydd rhaid i chi benderfynu a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth.

Beth os yw'r ddyletswydd yn ddyletswydd i blentyn neu berson ifanc?

Efallai y bydd plentyn neu berson ifanc yn teilyngu dyletswydd cyfrinachedd eu hunain. Gall person ifanc dros 16 oed, neu blentyn o dan 16 oed, sy'n gallu deall a gwneud eu penderfyniadau eu hunain, roi (neu wrthod rhoi) caniatâd i ddatgelu gwybodaeth. Fel arall, dylai person sydd â chyfrifoldeb rhieni roi caniatâd ar eu rhan.

Deddf Hawliau Dynol 1998

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (sy'n rhan o gyfraith y DU o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998) yn cydnabod hawl i barchu bywyd preifat a theuluol.

"8.1 Everyone has the right to respect for his private and family life, his home and his correspondence.

8.2 There shall be no interference by a public authority with exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, protection of health or morals or for the protection of rights and freedom of others."

Nid yw'r hawl yn absoliwt. Gallai datgelu gwybodaeth gyfrinachol i amddiffyn lles plentyn darfu'n sylweddol ar fywyd preifat neu deuluol person. Fodd bynnag, gellir cyfiawnhau hyn gan Erthygl 8(2) os oes angen atal troseddu neu amddiffyn iechyd a lles plentyn.

Yn y bôn, dyma'r un prawf 'cymesuredd' ag sy'n berthnasol i ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad.

Os gellir cyfiawnhau rhannu gwybodaeth o dan ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad ac nad yw hynny'n torri gofynion diogelu data nac unrhyw ofynion cyfreithiol penodol eraill, dylai fodloni Erthygl 8.

Deddf Diogelu Data 1998

Mae **Deddf Diogelu Data 1998** yn rheoleiddio'r broses o drin data personol. Yn y bôn, gwybodaeth sy'n cael ei chadw am unigolyn ar gyfrifiadur neu system ffeilio â llaw yw hon. Mae'r Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon, sy'n cynnwys cael, cofnodi storio a datgelu'r wybodaeth.

Os ydych chi'n penderfynu datgelu data personol mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r Ddeddf, sy'n cynnwys wyth o egwyddorion diogelu data. Ni ddylai'r rhain fod yn rhwystr:-

- os oes gennych chi bryderon arbennig am les y plentyn;
- os ydych chi'n datgelu gwybodaeth i wasanaethau cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall; a
- bod modd cyfiawnhau datgelu'r wybodaeth o dan ddyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad.

Yr egwyddorion diogelu cyntaf a'r ail yw'r rhai mwyaf perthnasol.

Yr Egwyddor Gyntaf

- Rhaid prosesu data personol yn deg a chyfreithlon ac, yn benodol, ni ddylid ei brosesu oni bai:-
 - bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 2 yn cael ei fodloni; a
 - gyda data personol sensitif, bod o leiaf un o'r amodau yn Atodlen 3 yn cael ei fodloni.

Yr Ail Egwyddor

- Dim ond at un neu ragor o ddibenion penodol cyfreithiol y dylid cael gafael ar ddata personol ac ni ddylid ei brosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r diben hwnnw neu'r dibenion hynny.

Mae "tegwch" yn golygu bod yn agored gyda phobl ynghylch sut y defnyddir yr wybodaeth amdanynt ac o dan ba amgylchiadau y gellir ei datgelu. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau yn cymryd camau i hysbysu pobl o'u polisi y tro cyntaf y byddant yn gofyn am wybodaeth ganddynt ee trwy nodi hyn ar ffurflenni neu daflenni neu mewn hysbysiadau mewn ystafelloedd aros. Mae yna nifer o eithriadau i'r gofyniad hwn. Y prif rai yw pan fo angen datgelu'r wybodaeth er mwyn atal neu ganfod achos o droseddu (sy'n cynnwys cam-drin neu esgeuluso plentyn) neu fod angen gwneud hynny o dan orchymyn llys neu statud.

Rhaid bodloni amod yn Atodlen 2. Mae'r amodau hyn yn sefydlu a oes rheswm cyfreithlon dros rannu gwybodaeth. Maent yn cynnwys:-

- bod testun y data (y person y mae'r data yn sôn amdano) yn rhoi caniatâd;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol;
- bod angen datgelu'r wybodaeth er budd hanfodol testun y data;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i gyflawni swyddogaeth statudol, neu swyddogaeth gyhoeddus arall er lles y cyhoedd (ee at ddibenion asesiad adran 17 neu ymchwiliad adran 47); a
- bod angen datgelu'r wybodaeth at ddibenion buddiannau cyfreithlon y sawl sy'n rhannu'r wybodaeth, ac eithrio pan na ellir gwarantu hyn yn sgil rhagfarn yn erbyn hawliau a rhyddid neu fuddiannau cyfreithlon testun y data.

Mae yna amod i gwmpasu'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd pan fo ymarferwr yn rhannu gwybodaeth i ddiogelu lles plentyn. Yn arbennig, mae'r amod olaf (budd cyfreithlon) yn berthnasol ym mhob achos ac yn cynnwys prawf cymesuredd sy'n debyg iawn i'r un a ddefnyddiwyd i brofi achosion o dorri cyfrinachedd.

Os yw'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn ddata personol sensitif, mae'n rhaid bodloni'r amod yn Atodlen 3 hefyd. Mae data personol sensitif yn ymwneud â'r elfennau canlynol o fywyd testun y data:

- tarddiad hiliol neu ethnig;
- safbwyntiau gwleidyddol;
- syniadau crefyddol;
- aelodaeth o undeb llafur;
- cyflwr iechyd corfforol neu feddyliol;
- bywyd rhywiol; neu
- tramgwyddau troseddol.

Yr amodau perthnasol yn Atodlen 3 yw:-

- bod testun y data wedi rhoi caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth;
- bod angen datgelu'r wybodaeth i amddiffyn buddiannau hanfodol testun y data neu berson arall lle na ellir rhoi caniatâd testun y data neu ei fod wedi'i wrthod yn afresymol neu lle na ellir disgwyl ei gael yn rhesymol;
- bod angen sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliau cyfreithiol; a
- bod angen datgelu'r wybodaeth i gyflawni unrhyw swyddogaeth statudol.

Mae "hawliau cyfreithiol" yn cynnwys hawliau'r plentyn o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a gallai amddiffyn yr hawliau hynny gynnwys datgeliadau rhwng gweithwyr proffesiynol i bennu a oes angen diogelu lles plentyn. Mae cyflawni swyddogaeth statudol yn cwmpasu rhannu gwybodaeth ymysg gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill mewn cysylltiad ag asesiad adran 17 neu ymchwiliad adran 47.

Mae'r ail egwyddor diogelu data'n ei gwneud yn ofynnol nad yw diben datgelu'r wybodaeth yn wahanol i ddiben cael y wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau'n cynnwys datgeliadau i asiantaethau eraill yn y dibenion a nodwyd i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae datgelu gwybodaeth i atal neu ganfod achos o droseddu trwy orchymyn llys neu statud hefyd wedi'u heithrio o'r egwyddor hon.

Os bydd angen cyngor arnoch am ofynion diogelu data, dylech gysylltu â'r swyddog cydymffurfio gyda'r Ddeddf Diogelu Data yn eich sefydliad neu, os nad oes gennych un, gallwch gysylltu â'r **Comisiynydd Gwybodaeth**.

Darpariaethau statudol eraill

Mae Adrannau 27 a 47 o Ddeddf Plant 1989 yn galluogi awdurdodau lleol i ofyn am gymorth gan awdurdodau penodol (awdurdodau lleol eraill, awdurdodau addysg, awdurdodau tai, cyrff GIG) ac yn gosod rhwymedigaeth ar yr awdurdodau hynny i gydweithredu. Gallai cais fod yn un am wybodaeth yng nghyswllt asesiad adran 17 neu ymholiad adran 47. Ni fyddai'r naill ddarpariaeth na'r llall yn golygu torri cyfrinachedd heb gyfiawnhad. Ond ni ddylai awdurdod wrthod cais heb ystyried yr holl amgylchiadau.

Mae Adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn galluogi unrhyw berson i ddatgelu gwybodaeth i awdurdod perthnasol at unrhyw ddibenion o'r Ddeddf os na fyddai ganddynt y pŵer i wneud hynny fel arall. Mae awdurdodau perthnasol yn cynnwys awdurdodau lleol, cyrff y GIG ac awdurdodau heddlu. Mae dibenion y Ddeddf yn fras yn cwmpasu atal a lleihau troseddu a nodi neu arestio troseddwr.

Datgelu gwybodaeth am droseddwr rhyw

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu **canllawiau** ar gyfnewid gwybodaeth am bawb sydd wedi'u cael yn euog, neu wedi cael eu rhybuddio, neu wedi bod o flaen llys am dramgwydd rhywiol; a'r rhai y mae'r asiantaethau perthnasol yn eu hystyried yn bobl sy'n achosi perygl i blant ac eraill. Mae'r canllawiau hefyd yn mynd i'r afael â materion sy'n codi mewn perthynas â phobl nad ydynt wedi'u cael yn euog neu heb gael rhybuddiad am droseddau, ond yr amheuir eu bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch rhywiol troseddol.

Mae'r canllawiau'n pwysleisio y dylai datgelu gwybodaeth ddigwydd bob amser o fewn system sefydledig a phrotocol rhwng asiantaethau, a dylid cynnwys y broses mewn system asesu a rheoli risg. Dylai pob achos gael ei farnu'n unigol gan

yr heddlu ac asiantaethau perthnasol eraill, gan ystyried faint o risg sy'n gysylltiedig. Mae'r canllawiau'n rhoi cyfrifoldeb ar yr heddlu i gydgyssylltu ac arwain y broses asesu a rheoli risg. Mae'n cynghori y dylai asiantaethau weithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, ac yn cyfeirio at ddeunydd arferion gorau sydd ar gael. Mae hefyd yn hyrwyddo sefydlu paneli perygl aml-asiantaeth i rannu gwybodaeth am droseddswyr ac i lunio strategaethau i reoli eu perygl.

Canllawiau proffesiynol

Meddygol

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cynhyrchu canllawiau ar Gyfrinachedd (1995). Mae'n pwysleisio pwysigrwydd cael caniatâd claf i ddatgelu gwybodaeth bersonol dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond yn nodi'n glir y gellir rhyddhau gwybodaeth i drydydd partiön - heb ganiatâd os oes angen - dan rai amgylchiadau. Mae'r amgylchiadau hynny'n cynnwys y canlynol:

Datgelu er lles meddygol y claf

Gall problemau godi os ydych o'r farn nad yw claf yn gallu rhoi caniatâd i dderbyn triniaeth oherwydd anaeddfedrwydd, salwch neu analluogrwydd meddyliol, ac rydych wedi ceisio perswadio'r claf, heb lwyddiant, i ganiatáu i berson perthnasol fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Os ydych chi'n argyhoeddedig bod hyn hanfodol er budd meddygol y claf, gallwch ddatgelu gwybodaeth berthnasol i awdurdod neu berson priodol. Rhaid i chi ddweud wrth y claf cyn datgelu unrhyw wybodaeth. Dylech gofio bod rhaid i'r penderfyniad ynghylch a yw cleifion yn gallu rhoi neu beidio â rhoi caniatâd i driniaeth neu i ddatgelu gwybodaeth fod yn seiliedig ar asesiad o'u gallu i werthfawrogi goblygiadau'r driniaeth neu'r cyngor a geisir, ac nid ar sail eu hoedran yn unig.

Os ydych chi'n credu bod claf wedi dioddef esgeulustod neu gam-drin corfforol neu rywiol ac nid yw'n gallu rhoi neu beidio â rhoi caniatâd i ddatgelu gwybodaeth, fel arfer dylech gyflwyno'r wybodaeth hon i berson cyfrifol priodol neu awdurdod statudol,

er mwyn atal y claf rhag dioddef rhagor. Dan amgylchiadau o'r fath a rhai tebyg, efallai y gallwch ryddhau gwybodaeth heb ganiatâd y claf, ond dim ond os ydych yn credu nad yw'n gallu rhoi caniatâd ac y byddai er budd meddygol gorau'r claf i ddatgelu'r wybodaeth

Datgelu er lles eraill

Mae'n bosibl y bydd angen datgelu gwybodaeth er budd y cyhoedd lle gallai peidio â gwneud hynny achosi risg o farwolaeth neu niwed difrifol i'r claf neu i eraill. Dan amgylchiadau o'r fath, dylech ddatgelu'r wybodaeth yn brydlon i awdurdod neu unigolyn priodol.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cadarnhau bod ei ganllawiau ar ddatgelu gwybodaeth a allai helpu i atal neu ganfod achosion o gam-drin, yn berthnasol i wybodaeth am drydydd partïon (e.e. oedolion a allai achosi perygl o niwed i blentyn), ac am blant a allai fod yn cael eu cam-drin.

Nyrsio

Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) wedi cyhoeddi ***cyngor ar ymarfer proffesiynol*** (2006), sy'n cynnwys y cyngor canlynol ar ddatgelu gwybodaeth:

Datgelu gwybodaeth

Mae angen i aelodau cofrestredig ystyried cymalau 5.3 a 5.4 o'r Cod cyn penderfynu datgelu gwybodaeth:-

- 5.3 Os oes gofyn i chi ddatgelu gwybodaeth y tu allan i'r tîm a fyddai'n arwain at ganlyniadau personol i gleifion neu gleientiaid, rhaid i chi gael eu caniatâd. Os yw'r claf neu'r cleient yn gwrthod rhoi caniatâd, neu os na ellir cael caniatâd am ba bynnag reswm, gellir datgelu gwybodaeth dan yr amodau canlynol yn unig:
 - i. gellir eu cyfiawnhau er budd y cyhoedd (fel arfer os yw datgelu gwybodaeth yn hanfodol i warchod y claf neu'r cleient neu rywun arall rhag perygl o niwed sylweddol);

ii. mae'r gyfraith neu orchymyn llys yn mynnu hynny.

5.4 Pan fo mater yn ymwneud ag amddiffyn plant, rhaid i chi weithredu'n unol â pholisïau cenedlaethol a lleol bob amser.

Dylai aelodau cofrestredig sy'n penderfynu datgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd y claf/cleient wneud hynny dan amgylchiadau eithriadol yn unig. Dylent allu cyfiawnhau eu gweithredoedd. Caiff gwybodaeth ei datgelu er budd y cyhoedd yn unig er mwyn amddiffyn unigolion, grwpiau neu'r gymdeithas gyfan rhag perygl o niwed sylweddol. Gall enghreifftiau gynnwys cam-drin plant, troseddau difrifol neu ddelio mewn cyffuriau.

Cadw cofnodion

Mae cadw cofnodion da yn rhan bwysig o atebolrwydd gweithwyr proffesiynol i'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae'n helpu i ganolbwyntio gwaith, ac yn hanfodol i weithio'n effeithiol ar draws ffiniau asiantaethau a ffiniau proffesiynol. Mae cofnodion clir a chywir yn sicrhau bod yna gofnod wedi'i ddogfennu o waith yr asiantaeth neu weithiwr proffesiynol gyda phlentyn a/neu deulu. Maent yn helpu gyda dilyniant pan nad yw gweithwyr unigol ar gael neu pan fo gweithwyr yn newid, ac yn darparu dull hanfodol i reolwyr fonitro gwaith neu ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid. Mae cofnodion yn ffynhonnell dystiolaeth hanfodol ar gyfer ymchwiliadau ac ymholiadau, ac efallai y bydd angen eu datgelu mewn achosion llys. Dylid cadw achosion lle nad yw'r ymholiadau'n arwain at gadarnhau pryderon sydd wedi'u hatgyfeirio yn unol â pholisïau cadw cofnodion yr asiantaeth. Dylai'r polisïau hyn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a bod modd eu hadfer yn sydyn ac effeithlon.

I wasanaethu'r dibenion hyn, dylid rhoi amser a dyddiad ar gofnodion, defnyddio iaith uniongyrchol a chlir, dylent fod yn gryno a chywir yn ffeithiol a hefyd o ran gwahaniaethu rhwng barn, dyfarniadau a damcaniaeth.

Mae cofnodion da yn rhoi sylfaen hanfodol i arferion amddiffyn plant da. Er mwyn diogelu plant yn briodol, mae angen casglu gwybodaeth o ffynonellau niferus a gwneud penderfyniadau proffesiynol gofalus ar sail yr wybodaeth honno. Dylai cofnodion

fod yn glir, hygyrch a chynhwysfawr, gyda dyfarniadau wedi'u gwneud, a chymau gweithredu a phenderfyniadau wedi'u cofnodi'n ofalus. Dylid nodi'n glir os oes penderfyniadau wedi'u cymryd ar y cyd rhwng gwahanol asiantaethau, neu wedi'u cymeradwyo gan reolwr.

Fel rheol, bydd gwybodaeth berthnasol am blentyn neu deulu sy'n destun pryderon amddiffyn plant wedi'i choladu mewn un lle gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Dylai cofnodion adrodd 'stori' achos. Yn benodol, dylai'r darllenydd allu olrhain:-

- hanes perthnasol y plentyn a'r teulu a arweiniodd at yr ymyrraeth;
- natur ymyriadau, yn cynnwys canlyniadau a fwriedir;
- y dull o gyflawni newid; a
- y cynnydd a wneir.

Dylai asiantaethau ystyried pa asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill y mae angen eu hysbysu am newid mewn amgylchiadau, er enghraifft newid ym Meddyg Teulu plentyn sydd ar y gofrestr amddiffyn plant. Dylai pob asiantaeth sicrhau bod cofnodion y plentyn yn cael eu trosglwyddo'n fuan i'r asiantaeth berthnasol yn yr ardal newydd pan fo plentyn yn symud i ardal arall.

Goruchwyliaeth a chymorth

Mae'n rhaid gwneud penderfyniadau proffesiynol anodd a pheryglus wrth weithio ym maes amddiffyn plant. Mae'n waith heriol sy'n gallu achosi gofid a straen. Dylai pawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith allu cael gafael ar gyngor a chymorth, gan gymheiriaid, rheolwyr, gweithwyr proffesiynol penodol a dynodedig ac ati.

I lawer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd o ddydd i ddydd, mae goruchwyliaeth effeithiol yn bwysig i hyrwyddo safonau ymarfer da ac i gefnogi aelodau staff unigol. Dylai goruchwyliaeth helpu i sicrhau bod ymarfer yn gadarn ac yn gyson â gweithdrefnau'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant a gweithdrefnau sefydliadol. Dylai sicrhau bod ymarferwyr yn deall eu swyddogaethau, cyfrifoldebau a chwmpas eu disgrisiwn

proffesiynol a'u hawdurdod yn llawn. Dylai hefyd helpu i nodi a datblygu anghenion ymarferwyr fel bod gan bob un y sgiliau angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth effeithiol.

Dylai goruchwyliaeth gynnwys craffu a gwerthuso'r gwaith a gyflawnwyd, asesu cryfderau a gwendidau'r ymarferwr a darparu datblygiad hyfforddi a chymorth bugeiliol. Dylai ymarferwyr allu cysylltu â goruchwylwyr i gael cyngor ac arbenigedd ac efallai y bydd gofyn iddynt gymeradwyo penderfyniadau ar adegau allweddol yn y prosesau amddiffyn plant. Dylai goruchwylwyr gofnodi penderfyniadau allweddol mewn cofnodion achos hefyd.

Dylai trefniadau effeithiol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant gynnwys systemau, safonau a phrotocolau y cytunwyd arnynt ar gyfer rhannu gwybodaeth am blentyn a'i deulu ym mhob sefydliad a rhwng sefydliadau. Dylai'r protocolau lleol hyn gydymffurfio â'r canllawiau hyn.

Dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant trwy eu gwaith ddeall diben rhannu gwybodaeth er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae angen iddynt fod yn hyderus ynglŷn â beth ellir ac y dylid ei wneud o dan y gyfraith, yn cynnwys sut i gael caniatâd neu rannu gwybodaeth, a phryd y gellir rhannu gwybodaeth hyd yn oed pan na chafwyd caniatâd neu y byddai gofyn am ganiatâd yn rhoi'r plentyn mewn perygl o niwed cynyddol.

Mae ymchwil a phrofiad wedi dangos dro ar ôl tro bod angen i weithwyr proffesiynol ac eraill rannu gwybodaeth er mwyn gallu cadw plant yn ddiogel: gwybodaeth am iechyd a datblygiad plant a'u cysylltiad â niwed posibl; gwybodaeth am riant a all fod angen cymorth i ofalu am blentyn yn ddigonol a diogel neu na all wneud hynny; a gwybodaeth am y rhai a allai achosi perygl o niwed i blentyn. Yn aml, dim ond ar ôl rhannu gwybodaeth o ffynonellau niferus a'i gwerthuso y gellir gweld bod plentyn mewn perygl neu'n dioddef o niwed, neu y gallai rhywun fod yn achosi perygl o niwed i blant.

Bydd y rhai sy'n darparu gwasanaethau i oedolion a phlant yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng eu dyletswyddau i amddiffyn plant rhag niwed a'u dyletswydd gyffredinol tuag at eu claf neu ddefnyddiwr y gwasanaeth. Mae rhai gweithwyr a staff proffesiynol yn wynebu'r elfen ychwanegol o fod yn gysylltiedig â gofalu am, neu gefnogi, mwy nag un aelod o deulu - y plentyn sy'n cael ei gam-drin, brodyr a chwiorydd, y sawl sy'n cael ei gyhuddo o gam-drin. Fodd bynnag, pan mae yna bryderon bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol, neu y gallai fod mewn niwed sylweddol, dylai anghenion y plentyn ddod yn gyntaf. O dan amgylchiadau o'r fath, y prif nod fydd diogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Yn ogystal, mae angen i bob sefydliad gadw gwybodaeth yn ddiogel.

Er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, dylai'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant sicrhau bod gan ei asiantaethau partner drefniadau ar waith o dan Adran 28 o Ddeddf Plant 2004 lle mae:-

- yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a'r dulliau mwyaf effeithiol o rannu gwybodaeth os ydynt yn credu bod angen gwasanaethau ychwanegol o bosibl ar blentyn a theulu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau;
- yr holl staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn deall beth i'w wneud a phryd i rannu gwybodaeth os ydynt yn credu bod y plentyn yn blentyn mewn angen, yn cynnwys y plant sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed;
- canllawiau priodol sy'n benodol i wahanol sefydliadau yn cael eu cynhyrchu i ategu canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod canllawiau o'r fath a hyfforddiant priodol yn cael eu darparu i staff cyfredol a staff newydd fel rhan o'u trefniadau cynefino;
- canllawiau a hyfforddiant yn cwmpasu rhannu gwybodaeth rhwng proffesiynau, sefydliadau ac asiantaethau, yn ogystal ag yn y sefydliadau hyn, a bod trefniadau ar gyfer hyfforddiant yn ystyried gwerth hyfforddiant aml-asiantaeth yn ogystal ag hyfforddiant asiantaeth unigol; a
- rheolwyr gwasanaethau plant yn hollol gyfarwydd â'r fframwaith cyfreithiol a'r canllawiau arfer da a gyhoeddir ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant.

Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol

Deddfwriaeth Berthnasol

Mae nifer o ddarpariaethau statudol sy'n berthnasol yng nghyswllt y maes hwn, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Y rhai pwysicaf yw:

Deddf Addysg 2002

O dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002, rhaid i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau o ran diogelu a hybu lles plant. Yn ogystal, rhaid i'r cyrff hyn ystyried unrhyw ganllawiau sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wrth feddwl pa drefniadau sydd angen iddynt eu gwneud i bwrpas yr adran hon.

Rhan 11

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

*Dyletswyddau cyffredinol Awdurdodau Addysg Lleol
a chyrff llywodraethu*

175 Dyletswyddau Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff llywodraethu yng nghyswllt lles plant

- (1) Rhaid i awdurdod addysg lleol wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni'r swyddogaethau sydd wedi eu dyrannu iddo fel awdurdod addysg lleol o ran diogelu a hybu lles plant.
- (2) Rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau ynghylch sut y mae'r ysgol yn cael ei rhedeg o ran diogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol honno.
- (3) Rhaid i gorff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach wneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau ynghylch sut y mae'r sefydliad yn cael ei redeg o ran diogelu a hybu lles plant sy'n derbyn addysg neu

hyfforddiant yn y sefydliad hwnnw. the welfare of children receiving education or training at the institution.

(4) Rhaid i awdurdod neu gorff y cyfeiriwyd atynt yn unrhyw un o'r isadrannau (1) i (3) uchod, wrth ystyried pa drefniadau sydd angen iddynt eu gwneud o dan yr isadran honno, ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (yng nghyswllt Lloegr) neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (yng nghyswllt Cymru).

(5) Yn yr adran hon -

ystyr "plentyn" yw person o dan ddeunaw oed;

ystyr "corff llywodraethu", yng nghyswllt sefydliad o fewn y sector addysg bellach, yw'r ystyr a roddir yn adran 90 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (c. 13);

ystyr "ysgol a gynhelir" yw ysgol fro, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol, ysgol arbennig sefydledig neu fro, neu ysgol feithrin a gynhelir.

O dan Adran 157 o Ddeddf Addysg 2002 a Rheoliadau Safonau Addysg Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 rhaid i berchnogion ysgolion annibynnol wneud trefniadau i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgolion hynny.

RHAN 10

YSGOLION ANNIBYNNOL

PENNOD 1

RHEOLEIDDIO YSGOLION ANNIBYNNOL

Safonau

175 Safonau ar gyfer Ysgolion Annibynnol

(1) I bwrpas y Bennod hon, bydd rheoliadau yn rhagnodi safonau ar gyfer y materion canlynol -

(a) ansawdd yr addysg sy'n cael ei darparu mewn ysgolion annibynnol;

- (b) datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion mewn ysgolion annibynnol;
 - (c) lles, iechyd a diogelwch disgyblion mewn ysgolion annibynnol;
 - (d) addasrwydd perchnogion a staff mewn ysgolion annibynnol;
 - (e) adeiladau/tir a llety mewn ysgolion annibynnol;
 - (f) darpariaeth gwybodaeth gan ysgolion annibynnol;
 - (g) sut y mae ysgolion annibynnol yn delio â chwynion.
- (2) Yn y Bennod hon, ystyr “safonau ysgolion annibynnol” yw’r safonau sy’n cael eu rhagnodi am y tro o dan yr adran hon.

Deddf Plant 1989

Adran 17 - mae’n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hybu lles plant yn eu hardal sydd mewn angen a darparu ystod a lefel o wasanaethau sy’n briodol i anghenion y plant hynny;

Adran 27 - mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau addysg lleol a sefydliadau eraill gynorthwyo gyda chyflawni swyddogaethau, gan gynnwys y rhai o dan adran 17;

Adran 47 - mae’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud ymholiadau amddiffyn plant os oes ganddynt le rhesymol i amau bod plentyn yn eu hardal yn dioddef neu’n debygol o ddioddef o niwed sylweddol, ac i awdurdodau addysg lleol a sefydliadau eraill eu cynorthwyo gyda’r ymholiadau os gofynnir iddynt wneud hynny.

Deddf Plant 2004

Adrannau 25, 26 a 27: Cydweithredu i wella Lles

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae hawliau'r Confensiwn wedi eu trosi'n saith Nod Craidd y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn anelu atynt i sicrhau bod plant a phobl ifanc ym mhob man yn:-

- cael dechrau da mewn bywyd;
- cael amrywiaeth cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- mwynhau'r iechyd gorau posibl ac nad ydynt yn cael eu camdrin, eu fictimeiddio na'u hecsbloetio;
- cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
- cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol

Mae'r nodau hyn wedi eu hadlewyrchu yn adran 25 o Ddeddf Plant 2004 a, gyda'i gilydd, maent yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer amddiffyn a hybu lles plant a phobl ifanc. Am y tro cyntaf mae'n rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru (a elwir yn y Ddeddf yn awdurdodau gwasanaethau plant) i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad gyda golwg ar wella lles plant yn eu hardal, yng nghyswllt:-

- iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol;
- amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant a hamdden;
- y cyfraniad a wneir ganddynt at gymdeithas; a
- lles cymdeithasol ac economaidd.

Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i awdurdod lleol hyrwyddo cydweithrediad rhyngddo ef a'i bartneriaid, sef:-

- awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu lle mae unrhyw ran o'r ardal honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- bwrdd prawf lleol dros ardal lle mae unrhyw ran o'r ardal honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- tîm troseddau ieuenctid dros ardal lle mae unrhyw ran o'r ardal honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- bwrdd iechyd lleol dros ardal lle mae unrhyw ran o'r ardal honno yn dod o fewn ardal yr awdurdod lleol;
- ymddiriedolaeth GIG sy'n darparu gwasanaethau yn ardal yr awdurdod; ac
- y Cynulliad lle mae'n cyflawni swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae gan y partneriaid hyn hefyd ddyletswydd statudol i gydweithredu â'r awdurdod lleol i wneud y trefniadau hyn. Mae cylchlythyr cyfarwyddyd 35/2006 *"Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau"* gan Lywodraeth y Cynulliad yn cynnwys canllawiau penodol ar gydweithredu'n lleol o dan Ddeddf Plant 2004.

Adran 28: Trefniadau i Ddiogelu a Hybu Lles

Mae Adran 28 o Ddeddf 2004 hefyd yn gofyn bod y cyrff canlynol yn gwneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cyflawni eu swyddogaethau o ran yr angen i ddiogelu a hybu lles plant:-

- awdurdod lleol;
- Bwrdd Iechyd Lleol;
- Ymddiriedolaeth GIG lle mae ei holl neu y rhan fwyaf o'i hysbytai, sefydliadau a chyfleusterau yng Nghymru;
- awdurdod yr heddlu a phrif swyddog yr heddlu dros ardal heddlu yng Nghymru;

- Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain, cyn belled ag y mae'n ymarfer swyddogaethau yng nghyswllt Cymru;
- bwrdd prawf lleol dros ardal yng Nghymru;
- tîm troseddau ieuenctid dros ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru (neu, yn achos carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel sydd wedi contractio allan, y cyfarwyddwr); ac
- unrhyw berson lle mae'n darparu gwasanaethau yng nghyswllt y trefniadau a wnaed gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 123(1)(b) Deddf Dysgu .

Mae cylchlythyr cyfarwyddyd, *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"*, gan Lywodraeth y Cynulliad, yn darparu canllawiau penodol ar drefniadau i ddiogelu plant o dan Ddeddf Plant 2004.

O dan *"Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003"*, rhaid i gyflogwyr athrawon ac eraill y mae eu gwaith yn gysylltiedig â darparu addysg, ac asiantaethau athrawon llanw, roi gwybod am achosion arbennig o anghymhwysra proffesiynol i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, a rhai achosion o gamymddwyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Canllawiau Perthnasol

Gallai'r canllawiau canlynol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fod yn berthnasol wrth lunio polisiau a gweithdrefnau i ddiogelu a hybu lles plant dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Mae'r holl ddogfennau hyn ar gael oddi ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn yr adran Cyhoeddiadau:
www.cymru.gov.uk/educationandskills

Gweithdrefnau ar gyfer Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol - cylchlythyr 36/2007

Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau - cylchlythyr 31/2007

Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 - cylchlythyr 12/200

Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion - cylchlythyr 47/2006

Dod yn Athro Cymwysedig: Llawlyfr Canllawiau - cylchlythyr 41/2006

Canllawiau i Gyrff Llywodraethu Ysgolion ar Weithdrefnau Cwyno yn ymwneud â Disgyblion - cylchlythyr 39/2006

Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau - cylchlythyr 35/2006

Diogelu ac Amddiffyn plant a phobl ifanc: Llawlyfr ac enghreifftiau o arferion da i gyrff dyfarnu - ACCAC / Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm / Cyngor y Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu 2006

Addysgu Drama: Canllawiau ar Ddiogelu ac Amddiffyn Plant i Reolwyr ac Ymarferwyr Drama - cylchlythyr 23/2006

Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosoglwyddo Gyffredin - cylchlythyr 13/2006.

Adrodd ar Achosion o Gamymddwyn neu Anghymhwysra Proffesiynol yn y Gwasanaeth Addysg - cylchlythyr 33/2005

Gweithdrefnau Disgyblu Staff Mewn Ysgolion - cylchlythyr 45/2004

Ysgolion Annibynnol - Gwybodaeth a Chofrestru - Dogfen
Wybodaeth 13/2004

Gweithdrefnau Cwyno Cyrff Llywodraethu Ysgolion - cylchlythyr
03/2004

Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion - cylchlythyr
1(A)/2004

Ysgolion Bro - cylchlythyr 34/2003

Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwllo - cylchlythyr 23/2003

Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith
yn y Cwricwlwm Sylfaenol - cylchlythyr 13/2003

Swyddfa Cofnodion Troseddol: Archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion
Troseddol ar Wirfoddolwyr - cylchlythyr 02/2003

Amddiffyn Plant: Atal Pobl Anaddas rhag Gweithio gyda Phlant
a Phobl Ifanc yn y Gwasanaeth Addysg - cylchlythyr 34/2002

Camddefnyddio Sylweddau: Plant a Phobl Ifanc - cylchlythyr 17/2002

Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion - cylchlythyr 11/2002

Arweiniad ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal gan Awdurdodau
Lleol - cylchlythyr 02/2001

Iechyd a Diogelwch Disgyblion ar Ymweliadau Addysgol -
cylchlythyr 2/1999. Ar gael ar ffurf copi caled yn unig.
Ffoniwch 029 2082 6066 os gwelwch yn dda.

Defnyddio Grym Rhesymol i Reoli neu Ffrwyno Disgyblion -
cylchlythyr 37/1998. Ar gael ar ffurf copi caled yn unig.
Ffoniwch 029 2082 6078 os gwelwch yn dda.

Cymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol Arbennig mewn
Ysgolion - cylchlythyr 34/1997

Addysg Plant Sâl - cylchlythyr 57/1994

Cyhoeddiadau Eraill

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer pobl
7 i 19 oed yng Nghymru

Y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd

Y Fframwaith Asesu Cyffredin

Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau

Cod Ymarfer ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig

Llawlyfr o Arferion Da ar gyfer Plant ag Anghenion Addysgol
Arbennig

Anghenion Addysgol Arbennig: gwybodaeth i rieni a gofalwyr
plant a phobl ifanc sydd efallai ag anghenion addysgol arbennig

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

Clywch: Adroddiad Archwiliad Comisiynydd Plant Cymru
o Honiadau o Gam-drin Plant yn Rhywiol mewn Ysgol

Think U Know; Menter Addysgol gan y Ganolfan Camfanteisio
ar Blant a'u Hamddiffyn Ar-lein

Mae'r dogfennau canlynol ar gael drwy wefan Swyddfa
Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus yn www.opsi.gov.uk/

Deddf Plant 2004

Deddf Addysg 2002

Deddf Hawliau Dynol 1998

Deddf Diogelu Data 1998

Deddf Plant 1989

Rheoliadau

Rheoliadau Cynllun Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2007

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol)
(Cymru) 2007

Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau AB
yng Nghymru (Amodau) 2007

Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 10 a Darpariaethau
Trosiannol) (Cymru) 2006

Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003

Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Ysgolion
Arbennig Preswyl

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Preswyl